**Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae**

**Awdurdod Lleol:** Cyngor Sir Ddinbych

**Swyddog Cyfrifol:** Dawn Anderson

**Teitl swydd:** Rheolwr Datblygu Gofal Plant a Chwarae

**Dyddiad llenwi'r ffurflen:** Mehefin 2025

**Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae**

Yn ogystal â chanfod llinell sylfaen y ddarpariaeth, bydd Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn golygu bod modd:

- Canfod diffygion mewn gwybodaeth, darpariaeth, gwasanaethau a pholisïau
- Casglu tystiolaeth i ddangos i ba raddau y mae'r cyfleoedd chwarae'n ddigonol
- Amlygu dulliau posib i fynd i'r afael ag anawsterau wrth weithio mewn partneriaeth
- Ennyn cyfraniad a chyfranogiad pob un o'r partneriaid er mwyn hybu gwybodaeth a dealltwriaeth
- Sefydlu trefn fonitro sy'n cynnwys yr holl weithwyr proffesiynol ac yn gwella'r cyfathrebu rhyngddynt
- Adnabod enghreifftiau o arferion da
- Gweithio'n fwy mewn partneriaeth wrth asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae
- Adnabod camau i'w cynnwys yn y Cynllun Gweithredu i Sicrhau Cyfleoedd Chwarae Digonol sy'n deillio o'r asesiad.

Mae'r templed hwn yn offeryn technegol i hwyluso arfarniad corfforaethol o'r materion hynny y mae angen eu hystyried, fel y pennwyd yn y Canllawiau Statudol. Fe'i cyflwynir drwy themâu sy'n galluogi'r awdurdod lleol i asesu'r materion hynny a nodir yn Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012 a'r Canllawiau Statudol:

- Mater A: Poblogaeth
- Mater B: Diwallu anghenion amrywiol
- Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae
  - Mannau agored
  - Mannau chwarae dynodedig yn yr awyr agored lle nad oes staff
  - Caeau chwarae
- Mater Ch: Darparu cyfleoedd i chwarae dan oruchwyliaeth
  - Darparu gwaith chwarae
  - Gweithgareddau hamdden strwythuredig
- Mater D: Codi tâl am ddarpariaeth chwarae
- Mater Dd: Mynediad
  - i le a darpariaeth
  - gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau
- Mater E: Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae

- Mater F: Ymgysylltu â’r gymuned a’i chynnwys
- Mater Ff: Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol.

**Meini prawf**

Mae’r adran hon yn sôn am y “materion y mae angen eu hystyried” fel y’u pennir yn y Canllawiau Statudol.

**Y golofn meini prawf:** nodi’r data y mae angen eu darparu ac i ba raddau y mae’r awdurdod lleol yn bodloni’r meini prawf a bennwyd.

**Y golofn statws Coch Oren Gwyrdd (statws COG yr Asesiad Blaenorol a’r Asesiad Cyfredol)**
Mae statws COG yn ffordd syml ac effeithiol o gyfleu’r sefyllfa.

| | |
|---|---|
| Bodloni’r meini prawf i gyd. | Gwyrdd - wedi’u bodloni’n llwyr |
| Bodloni rhai o’r meini prawf. | Oren - wedi’u bodloni’n rhannol |
| Heb fodloni’r meini prawf. | Coch - Heb eu bodloni |

## Thema: Poblogaeth

Mae a wnelo'r thema hon â:

**Mater A: Nifer y plant ymhob grŵp oedran yn yr ardal**
**Mater B: Anghenion plant o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd yn yr ardal**
**Mater D: A godir tâl am ddarpariaeth chwarae ac ymhle**

**Meini Prawf Awdurdodau Lleol 1 i 21**

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae roi braslun o'r data ynghylch poblogaeth a demograffi plant rhwng 0 a 17 oed a ddefnyddir yn lleol i gynllunio ar gyfer darparu cyfleoedd i chwarae. Mae'r wybodaeth a nodir yn rhoi sylw i:

- Oedran y plant
- Plant sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf
- Ffactorau diwylliannol (fel ieithoedd eraill)
- Plant Sipsiwn a Theithwyr
- Plant anabl

Mae'r tablau isod yn dangos yr hyn sydd wedi newid mewn tueddiadau poblogaeth a demograffi ers cynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae diwethaf yn 2022.

Cesglir data gan Ystadegau Cymru ac o Gyfrifiad 2021 a defnyddir y wybodaeth i ddadansoddi tueddiadau demograffig fel y nodir yn y tablau isod.

| Blwyddyn | Poblogaeth Gyffredinol |
|---|---|
| 2021/22 | 96,047 |
| 2022/23 | 96,602 |
| 2023/24 | 97,156 |

Mae poblogaeth Sir Ddinbych wedi cynyddu'n raddol ac yn gyson yn y tair blynedd diwethaf o 96,047 yn 2021/22 i 97,156 yn 2023/24, sy'n 1,109 yn fwy o bobl a mwy na dwbl y cynnydd o 506 a gafwyd yn y tair blynedd flaenorol rhwng 2018/19 a 2020/21, fel y nodwyd yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Chwarae diwethaf yn 2022. Tybir ar sail hynny y bydd y boblogaeth yn dal i dyfu'n gyson yn yr un modd â'r chwe blynedd diwethaf a phrin yw'r dystiolaeth i awgrymu y bydd poblogaeth y sir yn lleihau.

| Carfan Oedran | Poblogaeth Breswyl 2021/22 | Poblogaeth Breswyl 2023/24 | Newid rhwng 2021 a 2023/24 |
|---|---|---|---|
| 0 – 1 oed | 1,855 | 1,702 | -153 |
| 2 oed | 945 | 932 | -13 |
| 3 – 4 oed | 1,954 | 2,006 | +52 |
| 5 – 7 oed | 3,166 | 3,102 | -64 |
| 8 – 11 oed | 4,474 | 4,414 | -60 |
| 12 – 17 oed | 6,788 | 7,123 | +335 |
| Cyfanswm 0 - 17 | 19,182 | 19,279 | +97 |

Bu'r cynnydd mwyaf yn y garfan o blant rhwng 12 a 17 oed, fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Eleni, gwelwn gynnydd hefyd yn y garfan o blant rhwng 3 a 4 oed, sy'n gyson â'r cynnydd bychan yn y nifer o fabanod a anwyd yn ystod y pandemig Covid yn 2020.

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-age

| Ethnigrwydd | Nifer y disgyblion 5 oed neu hŷn |
|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 12,835 |
| Teithwyr | 5 |
| Sipsiwn | 5 |
| Roma | 10 |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall | 310 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 75 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 55 |
| Gwyn ac Asiaidd | 90 |
| Unrhyw Gefndir Cymysg Arall | 200 |
| Indiaidd | 80 |
| Pacistanaidd | 30 |
| Bangladeshaidd | 35 |
| Unrhyw Gefndir Asiaidd Arall | 45 |
| Caribïaidd | 0 |
| Affricanaidd | 25 |
| Unrhyw Gefndir Du Arall | 0 |
| Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig | 5 |
| Unrhyw Gefndir Ethnig Arall | 115 |
| Anhysbys neu Heb ei Ddatgan | 45 |

Nifer y plant 5 oed neu hŷn yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth ac ethnigrwydd ar gyfer 2023/24. Disgyblion Gwyn Prydeinig yw mwyafrif y disgyblion yn Sir Ddinbych yn ôl ethnigrwydd, a chofnodwyd 12,835 yn 2023/24. Disgyblion o gefndiroedd Teithwyr, Sipsiwn, Roma, Tsieinïaidd neu Tsieinïaidd Prydeinig sy'n ffurfio'r niferoedd lleiaf yn eu grwpiau, gyda 5 o ddisgyblion neu fwy ymhob grŵp.  O gymharu â'r grwpiau yr adroddwyd yn eu cylch yn Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022, bu cynnydd cyffredinol o 180, o 545 i 725 yn nifer y disgyblion o'r grwpiau ethnig Unrhyw Gefndir Gwyn Arall, Unrhyw Gefndir Cymysg Arall, Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Unrhyw Gefndir Asiaidd Arall ac Affricanaidd.

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Ethnicity-National-Identity-and-Language/pupils5andover-by-localauthority-ethnicbackground

| Blwyddyn | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|
| Iaith gyntaf nad yw'n Gymraeg na Saesneg ymysg disgyblion 5 oed a hŷn | 483 | 594 | 654 |

Bu cynnydd o 160 yn nifer y disgyblion ag iaith gyntaf nad yw'n Gymraeg na Saesneg, o 483 yn ystod 2021/22 i 654 yn ystod 2023/24. Mae'r cynnydd hwnnw'n gyson â'r data a ddarparwyd yn y tabl blaenorol ynghylch ethnigrwydd, sy'n dangos cynnydd o 180 yn y grwpiau ethnigrwydd a restrir yn y testun.

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Ethnicity-National-Identity-and-Language/pupilsaged5andoverfirstlanguageotherthanenglishwelsh-by-localauthorityregion-year

| Categori Sgiliau | Disgyblion sy'n Siarad Cymraeg 5 oed a hŷn yn 2021/22 | Disgyblion sy'n Siarad Cymraeg 5 oed a hŷn yn 2023/24 |
|---|---|---|
| Siarad Cymraeg yn Rhugl | 2,579 | 2,580 |
| Yn Gallu Siarad Cymraeg ond Nid yn Rhugl | 6,174 | 5,985 |
| Methu Siarad Cymraeg/Heb Gael Gwybodaeth | 5,017 | 5,184 |

Mae sgiliau Cymraeg rhugl plant 5 oed a hŷn wedi dal yn gyson rhwng 2021/22 a 2023/24 gyda chynnydd o 1. Mae lefel sgiliau disgyblion sy'n medru siarad Cymraeg ond nid yn rhugl wedi gostwng 167 yn ystod yr un cyfnod, o 6,174 i 5,985. Mae'r gostyngiad hwnnw hefyd yn gyson â'r cynnydd o 180 a nodwyd yn y tabl data blaenorol ar gyfer plant ag iaith gyntaf nad yw'n Gymraeg na Saesneg.

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/abilityspeakwelshpupils5andover-by-localauthorityregion-category

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Caiff anghenion chwarae plant o bob oed eu deall a'u diwallu | **Newydd ar gyfer 2025** | **Gwyrdd** | Mae gan y Tîm Ceidwaid Chwarae ddealltwriaeth gadarn o anghenion chwarae plant o bob oed ac mae'n sicrhau y caiff y rheiny eu cydnabod, eu parchu a'u diwallu'n ddigonol. Mae'r staff yn deall fod plant yn dysgu a datblygu orau pan maent yn rhydd i ddewis eu gweithgareddau chwarae eu hunain, ymchwilio i'w diddordebau a rheoli risgiau eu hunain. Mae'r staff yn fedrus wrth arsylwi ac ymateb i blant yn chwarae heb gyfeirio hynny o reidrwydd, a bob amser yn ymgynghori â phlant a gwrando ar eu lleisiau yn ystod y sesiynau a phan fyddant yn lleisio eu barn. Y plant sy'n sbarduno ac arwain y sesiynau chwarae ac fe'u haddasir os oes angen er mwyn sicrhau y bodlonir yr holl blant.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n darparu sesiynau chwarae agored mewn amryw fannau ledled y sir yn ystod gwyliau'r ysgol ac yn ymweld â rhai mannau yn ystod y tymor i gynnal sesiynau ar ôl ysgol. Mae'r gwasanaeth yn arbennig o | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | uchel ei barch ac yn boblogaidd ymysg plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ymhob cwr o'r sir. Yn 2022, bu gan y gwasanaeth fwy na 22,000 o gyfranogwyr.<br><br>Mae gan y Ceidwaid Chwarae ddealltwriaeth drylwyr o'r Egwyddorion Gwaith Chwarae a sut i'w rhoi ar waith yn ystod eu sesiynau. Mae'r Ceidwaid Chwarae'n deall hawliau plant fel y'u pennir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac yn eirioli o'u plaid.<br><br>Bu Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae Sir Ddinbych, Tîm Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Ysgol Gynradd Christchurch yn y Rhyl yn gweithio mewn partneriaeth i gynnal prosiect ar gyfer pobl ifanc 11+ yn y Rhyl, Penmaenmawr a Than Lan, Hen Golwyn.<br>Daeth mwy na 138 o bobl ifanc i'r sesiwn yn y Rhyl, gan gynnwys disgyblion dwy o ysgolion uwchradd a thair o ysgolion cynradd. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cynhaliwyd y sesiynau yn y Rhyl ar y Cae Chwarae Amlddefnydd yng Nghanolfan Plant Integredig y Dderwen ac ar Gaeau Ysgol Christchurch, | | |
| **2** | Caiff anghenion chwarae plant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig a theuluoedd incwm isel eu deall a'u diwallu | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio data'r Cyfrifiad a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) er gwybodaeth.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n gweithio mewn partneriaeth â Theuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg i ddarparu cyfleoedd chwarae yn ardaloedd craidd Dechrau'n Deg. | | |
| **3** | Caiff anghenion chwarae plant sy'n byw mewn ardaloedd | **Oren** | **Oren** | Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n ymweld ag amryw fannau ledled y sir gydol y flwyddyn i ddarparu sesiynau chwarae agored. Detholwyd y mannau hynny er mwyn sicrhau y cynigir sesiynau nid nepell o bob ardal a bod rhwydd hynt i gynifer | Mae cwtogi ar gyllid wedi effeithio ar ehangu'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae i | Mwy o gyllid refeniw i dalu costau staff ar gyfer sesiynau ychwanegol ar ôl ysgol ac |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gwledig anghysbell eu deall a'u diwallu | | | â phosib o blant fynd iddynt. Darperir y sesiynau mewn mannau chwarae poblogaidd y mae plant a phobl ifanc yn gyfarwydd â hwy. Mae cydweithio'n digwydd â Theuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, Hamdden Sir Ddinbych Cyf, Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaethau Plant, Tîm Datblygu Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Ysgolion Lleol a Phartneriaethau Cymunedol.<br><br>Mae partneriaeth wedi hen sefydlu â Chanolfan Ni a Hamdden Sir Ddinbych Cyf i ddarparu cyfleoedd chwarae gwerth chweil yn ne Sir Ddinbych.<br><br>Ceir mannau chwarae graenus yn yr awyr agored mewn llawer o bentrefi yng nghefn gwlad sy'n darparu lleoedd diogel i blant chwarae. | gynnal ychwaneg o sesiynau mewn mwy o ardaloedd, a rhoi cymorth mewn ardaloedd sy'n cael problemau ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gan blant a phobl ifanc. | yn ystod y gwyliau. |
| **4** | Caiff anghenion chwarae | **Oren** | **Oren** | Ceir arwyddion dwyieithog yn yr holl fannau chwarae y mae'r Awdurdod Lleol yn berchen arnynt. | Trafferthion wrth recriwtio staff Cymraeg yn y sector | Ymgyrch recriwtio i annog siaradwyr |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | plant sy'n siarad Cymraeg eu deall a'u diwallu | | | Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n cydweithio â Menter Iaith Sir Ddinbych i ddarparu cyfleoedd chwarae dwyieithog a hwyluso digwyddiadau.<br><br>Mae gan yr Awdurdod Lleol we-dudalen benodol ar gyfer y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae yn Gymraeg: https://www.denbighshire.gov.uk/cy/hamdden-a-thwristiaeth/gwasanaeth-ceidwad-chwarae/gwasanaeth-ceidwad-chwarae.aspx<br><br>Cyhoeddir amserlen y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae, 'Beth am Chwarae Allan?', yn ddwyieithog ac fe'i hanfonir i'r holl ysgolion fel bod gan yr holl blant rwydd hynt at wybodaeth ynglŷn â sesiynau sy'n lleol iddynt hwy. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn rhannu gwybodaeth yn ddwyieithog ar gyfryngau cymdeithasol ac yn cyfeirio ymholwyr at y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae. | | Cymraeg i ymuno â'r sector, gan gydweithio â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, Gofalwn Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu hyfforddiant ac adnoddau i ddarparwyr chwarae i'w hannog i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eu lleoliadau.<br><br>Mae un siaradwr Cymraeg rhugl yn y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae a gall holl aelodau eraill y tîm siarad rhywfaint o Gymraeg yn ystod y sesiynau.<br><br>Mae gan dîm Chwaraeon Cymunedol Hamdden Sir Ddinbych Cyf ddau o siaradwyr Cymraeg a chynigir yr holl sesiynau'n ddwyieithog.<br><br>Mae Urdd Gobaith Cymru'n defnyddio canolfannau hamdden yn Sir Ddinbych i gynnal sesiynau aml-chwaraeon a champau penodol yn ogystal â darpariaeth yn ystod y gwyliau.<br><br>Anelir y sesiynau hynny'n bennaf at blant rhwng 3 ac 11 oed ac maent yn hyrwyddo llythrennedd corfforol drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Enghreifftiau:<br><br>Clwb Gymnasteg yr Urdd – clwb gymnasteg wythnosol<br><br>Clwb Pêl-rwyd yr Urdd – sesiynau pêl-rwyd ar y penwythnos i blant ysgol gynradd<br><br>Darpariaeth yn ystod y Gwyliau – Canolfan Hamdden y Rhyl. Cynnig sesiwn Ffit, Bwydo Hwyl mewn partneriaeth ag Undeb Rygbi Cymru | | |
| **5** | Caiff anghenion chwarae plant o leiafrifoedd ethnig eu deall a'u diwallu | **Oren** | **Gwyrdd** | Mae'r holl wasanaethau y mae'r Awdurdod Lleol yn eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc yn parchu anghenion plant o wahanol gefndiroedd diwylliannol.<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn ymrwymo i glodfori amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn, er mwyn gwella ansawdd bywydau pawb sy'n byw Sir Ddinbych, yn gweithio ac ymweld yma.<br><br>Mae gan yr Awdurdod Lleol bolisi Cyfle Cyfartal trylwyr ac ategir hwnnw | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | drwy gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae.<br><br>Yn y ddogfen 'Gweledigaeth ar gyfer Chwarae yn Sir Ddinbych', mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n ymrwymo i gynnal Nod Craidd 4 o blith y Saith o Nodau Craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn ogystall ag Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.<br>Vision for Play in Denbighshire 2017.d<br><br>Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2022-2027 yn egluro'r hyn y dymuna'r Cyngor ei gyflawni ar ran pobl a chymunedau Sir Ddinbych yn y pum mlynedd nesaf wrth greu'r "Sir Ddinbych a garem" ac mae'n sôn am holl weithgarwch y Cyngor ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o holl wasanaethau'r Cyngor. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| **6** | Caiff anghenion chwarae plant Sipsiwn a Theithwyr eu deall a'u diwallu | **Coch** | **Oren** | Nid yw'r Awdurdod Lleol yn cynnal unrhyw safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn Sir Ddinbych. Er bod yr Awdurdod Lleol yn dal i geisio dod o hyd i ffyrdd o ddatrys y sefyllfa, mae'r Cyngor yn cydnabod y caiff safleoedd dros dro eu sefydlu ar wahanol ddarnau o dir ledled y sir. Mae'r Awdurdod Lleol yn deall y bydd unrhyw safleoedd y bwriedir eu darparu ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y dyfodol yn sicrhau y bodlonir anghenion chwarae.<br><br>Cyflwynwyd cais am ganiatâd cynllunio i greu saith o leiniau ar dir preifat yn y Rhyl a gwrthodwyd y cais hwnnw, ond diddymwyd y penderfyniad hwnnw mewn apêl a chymeradwywyd y datblygiad; nid oes unrhyw gyfleusterau chwarae ar y safle, fodd bynnag. Mae'n cymryd dau funud i gerdded o'r safle i Erddi'r Coroni, man agored sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol sydd â gerddi | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | helaeth, caeau pêl-droed, fframiau dringo a pharc.<br><br>Mae sesiynau'r Ceidwaid Chwarae'n agored i'r holl blant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych ac mae croeso i blant Sipsiwn, Roma a Theithwyr gymryd rhan yn y sesiynau hynny. | | |
| **7** | Caiff anghenion chwarae ac anghenion cymorth plant anabl eu deall a'u diwallu | **Oren** | **Oren** | Mae yno brosesau wedi hen sefydlu ar gyfer adnabod anghenion chwarae plant ag anableddau, fel Llyw-wyr Lles i Bobl Anabl, Teuluoedd yn Gyntaf ac ysgolion arbenigol, er enghraifft. Magwyd perthynas dda rhwng yr awdurdod lleol a'r darparwyr chwarae.<br><br>Mae Cydlynydd Chwarae Hygyrch yn arwain y Tîm Ceidwaid Chwarae ac yn sicrhau bod y gwasanaethau'n gwbl gynhwysol ac yn hygyrch i'r holl blant. Os oes angen, mae Cymorthyddion yn darparu cefnogaeth ychwanegol 1 i 1 yn ystod y gwyliau. Darperir amrywiaeth o weithgareddau integredig. Gweithir yn agos â'r Llyw-wyr Lles i Bobl Anabl i adnabod anghenion plant a'u cyfeirio | Diffyg cefnogaeth ac arweiniad i rieni a darparwyr i blant gael mynediad at ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol ar ôl dechrau mynd i'r ysgol yn llawn amser | Bydd yr awdurdod lleol yn adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael i ddarparwyr y tu allan i'r ysgol wrth Adolygu ac Ailstrwythuro'r Blynyddoedd Cynnar fel y darperir cefnogaeth ac arweiniad cyson i'r plant sydd angen |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | er mwyn sicrhau y darperir gweithgareddau perthnasol.<br><br>Mae sesiynau chwarae agored yn groesawgar ac yn cynnig digonedd o wahanol weithgareddau i gefnogi plant. Amryw fannau ledled Sir Ddinbych, gan gynnwys ardaloedd gwledig. Mae'r staff yn y sesiynau chwarae agored yn glên ac yn cefnogi'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n cynnal sesiynau chwarae agored yn Ysgol Tir Morfa, Ysgol Plas Brondyffryn a Thŷ'r Ysgol – yr ysgolion arbennig yn y Rhyl a Sir Ddinbych. Ehangwyd y ddarpariaeth i gynnwys yr holl blant yn yr ysgolion hynny a hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael i'r plant fynd i sesiynau chwarae agored yn y gymuned, gan fod y plant a phobl ifanc yn gyfarwydd â staff y tîm Ceidwaid Chwarae a'u bod hwythau'n gyfarwydd ag anghenion y plant.<br><br>Cynhaliodd y Tîm Ceidwaid Chwarae | Prinder meysydd ac ardaloedd chwarae hygyrch a chynhwysol | hynny i gael mynediad at ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol ac yn ystod y gwyliau, a bod hynny'n adlewyrchu'r gefnogaeth a ddarperir iddynt gael mynediad at ddarpariaeth addysg, er mwyn sicrhau y caiff anghenion chwarae plant ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol eu deall a'u diwallu. |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | archwiliad tua dechrau 2025 o'r holl fannau chwarae ledled Sir Ddinbych, gan gynnwys bwrw golwg ar hygyrchedd ac offer addas i blant a phobl ifanc anabl. Bydd y wybodaeth honno'n creu darlun ehangach ar y wefan newydd Mentro Allan y mae Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru ar fin ei lansio.<br><br>Mae Rhaglen Integredig Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn comisiynu Prosiect Gweithgareddau Gwyliau a reolir gan y Cydlynydd Chwarae Hygyrch, sy'n trefnu sesiynau cefnogi un i un ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau fel y gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden yn ystod gwyliau ysgol.<br><br>Mae'r Rhaglen Integredig hefyd yn cefnogi tîm ADY y Cyfnod Sylfaen er mwyn sicrhau mynediad at gyfleoedd chwarae i blant anabl.<br><br>Mae swyddogion cefnogi gofal plant Dechrau'n Deg yn sicrhau fod yno ddigon o weithgareddau chwarae mewn lleoliadau ar gyfer yr holl blant, | Prinder staff i roi cefnogaeth un i un i blant ag anghenion dysgu ychwanegol mewn gweithgareddau chwarae prif ffrwd. Diffyg gweithgareddau addas sy'n bodloni anghenion plant mwy cymhleth. Mae ar nifer cynyddol o blant angen cefnogaeth un i un.<br><br>Mynd i'r afael â'r diffygion hygyrchedd yn yr archwiliad o fannau chwarae pan gaiff y | Cyllid i wella hygyrchedd ac offer cynhwysol mewn meysydd a mannau chwarae<br><br>Cyllid ar gyfer staff cefnogi y tu allan i'r ysgol ac yn y sector chwarae.<br><br>Cyllid ychwanegol ac ymgyrch i recriwtio mwy o Gymorthyddion yn ystod y Gwyliau. |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gan gynnwys rhai ac anghenion ychwanegol ac anghenion dysgu sy'n dod i'r amlwg<br><br>Ceir amrywiaeth o weithgareddau cynhwysol a/neu rai penodol i blant anabl gymryd rhan ynddynt ledled y sir, gan gynnwys Nofio, Trampolinio, Pêl-fasged Cadair Olwyn.<br><br>Mae cyfle i hyfforddwyr lleol wneud hyfforddiant Cynnwys Pobl Anabl Lefel 1 am ddim drwy Chwaraeon Anabledd Cymru. Mae'r hyfforddiant hwnnw'n rhoi cyflwyniad i ymarfer cynhwysol ac yn meithrin dealltwriaeth o'r sail ddamcaniaethol ar gyfer hynny. Anelir y cwrs at hyfforddwyr lefel 1 ac uwch sy'n dymuno gwneud eu sesiynau chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn fwy cynhwysol.<br><br>Cyhoeddodd STAND (Yn Gryfach gyda'n Gilydd dros Anghenion Ychwanegol ac Anableddau) adroddiad yn amlygu prinder meysydd chwarae hygyrch a | wefan Mentro Allan ei lansio, er mwyn darparu mwy o leoedd a chyfleoedd chwarae hygyrch mewn rhannau helaethach o Sir Ddinbych. | Gweithio mewn partneriaeth â'r adrannau perthnasol unwaith y mae'r mannau chwarae wedi'u clustnodi a chanfod pa addasiadau ac offer sydd eu hangen i'w gwneud yn fwy hygyrch i blant anabl neu rai ag anghenion dysgu ychwanegol. |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chynhwysol yn Sir Ddinbych ac o ganlyniad i hynny, mae Cyngor Sir Ddinbych yn chwilio am gyllid ar gyfer cynllun peilot i greu maes chwarae cynhwysol yn Rhuthun, a bwriedir darparu ail un yn y Rhyl ym mis Medi.<br><br>Yn ôl teuluoedd y mae STAND yn eu cefnogi, mae prinder sesiynau cynhwysol a gwersi nofio fforddiadwy i blant anabl yn ystod gwyliau ysgol.<br><br>Lle bo modd, ac os oes cyllid ar gael, mae STAND yn ceisio cynnig gweithgareddau untro a diwrnodau i deuluoedd mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol a Hamdden Sir Ddinbych Cyf.<br><br>Mae'n bwysig nodi fod llawer o oedolion ag anableddau yn aml yn awyddus i ddefnyddio cyfleusterau chwarae oherwydd eu hoedran dysgu, a dylai meysydd chwarae fod yn hygyrch i bobl o bob oed.<br><br>Mae Sir Ddinbych yn darparu offer campfa yn yr awyr agored ac mae | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | llawer o'n teuluoedd yn ei ddefnyddio.<br><br>Byddai'n fuddiol cael hyfforddiant i'r staff ynghylch<br>• Creu amgylchedd cynhwysol i blant ag anghenion ychwanegol.<br>• Deall anghenion plant ag anableddau<br><br>Caiff plant a phobl ifanc ag anghenion arwyddocaol sy'n effeithio ar eu gallu i gael mynediad at gyfleoedd chwarae eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol i'w hasesu ac os ydynt yn gymwys, darperir cefnogaeth ychwanegol fel Cynorthwyydd Personol neu wasanaethau Chwarae arbenigol ar gyfer plant ag anableddau neu anghenion iechyd cymhleth. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol yn comisiynu dau o wasanaethau arbenigol ar gyfer plant na fedrant gael mynediad at y ddarpariaeth gyffredinol, hyd yn oed gyda chymorth – Clwb Sadwrn Synhwyraidd a gynhelir unwaith y mis a Chlwb Mentro Allan yn ystod | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwyliau Ysgol. Mae'r ddau o'r rhain yn ddarparwyr gofal dydd sydd wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).<br><br>Mae'r tîm Allgymorth Cyn Ysgol yn gweithio'n agos â darparwyr cyn ysgol i roi cefnogaeth a chymorth iddynt gynnig amgylchedd a phrofiadau cynhwysol.<br><br>Wrth ymgynghori â rhieni a darparwyr ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diweddaraf a gynhaliwyd yn 2022, soniodd teuluoedd â phlant ag anghenion ychwanegol neu anableddau mai fforddiadwyedd a phrinder gwahanol fathau o ofal plant oedd y rhwystrau mwyaf rhag cael gofal plant. Dywedodd un ymatebodd bod angen mwy o gefnogaeth i'r sector gofal plant er mwyn helpu gyda phlant sydd angen gofal un i un, gydag un arall yn sôn am ddiffyg staff i roi'r gofal sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion pob plentyn ag anghenion ychwanegol neu anableddau. Soniwyd am y | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gefnogaeth ar gyfer plant sy'n cael mynediad ar ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol ac yn ystod y gwyliau gyda chefnogaeth berthnasol, boed hynny drwy'r ysgol neu ddarparwr cyn ysgol/meithrin, a bod y gefnogaeth a'r arweiniad y tu allan i'r ysgol yn dod i ben pan oeddent yn cyrraedd yr oedran i fynd i'r ysgol yn llawn amser, gan ei gwneud yn anodd i rieni a darparwyr gael y gefnogaeth ac arweiniad angenrheidiol. | | |
| **8** | Caiff anghenion chwarae ac anghenion cymorth plant ag anghenion dysgu ychwanegol eu deall a'u diwallu | - | - | Dyblygu mater 7 – gweler y dystiolaeth a ddarparwyd yn rhif 7 | - | - |
| **9** | Caiff anghenion chwarae | **Newydd ar gyfer 2025** | **Gwyrdd** | Mae'r Awdurdod Lleol yn deall mor bwysig yw anghenion chwarae genethod ac yn sicrhau y bodlonir y rheiny drwy gyfleoedd i chwarae. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | genethod eu deall a'u diwallu | | | Mae'r Ceidwaid Chwarae'n cynnig sesiynau cynhwysol ac yn addasu'r gweithgareddau y mae genethod yn eu dewis os oes angen. Os gofynnir am sesiynau ar gyfer genethod yn unig, y gwasanaeth fyddai'n darparu'r rheiny.<br><br>Un o flaenoriaethau tîm Chwaraeon Cymunedol Hamdden Sir Ddinbych Cyf yw targedu darpariaeth at enethod yn Sir Ddinbych. Mae gan y tîm ddealltwriaeth dda o anghenion chwarae genethod. | | |
| **10** | Caiff anghenion chwarae plant mewn llety argyfwng neu lety dros dro eu deall a'u diwallu | **Newydd ar gyfer 2025** | **Oren** | Mae'r tîm atal digartrefedd yn cyrchu offer ac adnoddau chwarae i bobl mewn llety dros dro. Mae'r tîm hefyd wedi cefnogi teuluoedd mewn Llety Dros Dro drwy ddarparu talebau i fynd i'r ganolfan chwarae leol yn ogystal ag SC2 a TAG yn ystod gwyliau ysgol.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cynnig cyllid dros dymor byr ac mewn argyfwng er mwyn i blant gael mynediad at | Nid yw gwasanaethau'n cydweithio digon â'i gilydd i sicrhau amrywiaeth ehangach o gyfleoedd chwarae ar gyfer plant mewn llety argyfwng neu lety dros dro. | Mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau ac adrannau. |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gyfleoedd i chwarae gan ddarparwyr gofal plant a chwarae cofrestredig. | | |
| **11** | Caiff anghenion chwarae plant LHDTC+ eu deall a'u diwallu | **Oren** | **Gwyrdd** | Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn dal i hyrwyddo Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl ac atgyfeirio pobl ifanc ato, a thrwy ei Brosiect Viva mae'n darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i blant a phobl ifanc ledled Sir Ddinbych sy'n lesbiad, hoyw, deurywiol, trawsryweddol neu'n ansicr ynghylch eu hunaniaeth rywiol.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithio â phobl ifanc LHDTC+ drwy ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu i fodloni anghenion yr unigolion a'r grwpiau, yn ogystal â'u cynnwys yn y ddarpariaeth gyffredinol a hyrwyddo cynhwysiant yn yr holl ddarpariaeth; drwy wneud ymdrech i gefnogi Balchder, er enghraifft.<br>Hefyd, yn 2024/25 bu'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cynorthwyo'r Urdd gyda chyllid i ddarparu cefnogaeth Gymraeg i bobl ifanc LHDTC+ yng nghefn gwlad Sir Ddinbych, ac fe ariannodd fwy na 30 o sesiynau Clwb | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ieuenctid yn benodol i bobl ifanc LHDTC+ yn ne'r sir.<br><br>I ddatrys y diffyg a amlygwyd yn yr adroddiad diwethaf, cymerodd holl staff y Gwasanaeth Ieuenctid ran mewn hyfforddiant Ymwybyddiaeth LHDTC+ yn 2024/25. | | |
| **12** | Caiff anghenion chwarae ceiswyr lloches a ffoaduriaid eu deall a'u diwallu | **Newydd ar gyfer 2025** | **Gwyrdd** | Mae'r tîm Adsefydlu Ffoaduriaid yn darparu cyfleoedd diogel, cynhwysol a hygyrch i blant ceiswyr lloches er mwyn iddynt gael chwarae, fel mae ganddynt hawl i'w wneud, yn Sir Ddinbych. Gwneir hyn mewn partneriaeth ag Undeb Rygbi Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae, Hamdden Sir Ddinbych Cyf a Chyngor Celfyddydau Sir Ddinbych, ymysg eraill.<br><br>Mae'r Tîm Adsefydlu Ffoaduriaid yn cynnal tua 40 o ddigwyddiadau bob blwyddyn i ddarparu gweithgareddau i blant a'u teuluoedd sy'n addas i'w diwylliant ac yn ystyriol o drawma. Gall hynny gynnwys pobi, paentio, | Mae'r rhwystrau'n cynnwys iaith ac arian. Nid yw'r teuluoedd dan sylw yn cael cludiant am ddim a gall fod yn her iddynt fynd i ddigwyddiadau, ac weithiau maent yn methu â mynd i bethau o gwbl gan fod cludiant cyhoeddus yn rhy ddrud. Ar ben hynny, nid | Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n pennu'r meini prawf ar gyfer darparu arian cyhoeddus i geiswyr lloches a ffoaduriaid ac felly nid oes fawr ddim y gall yr Awdurdod Lleol ei wneud i ddatrys y |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | criced, pêl-droed, celf a chrefft, cerddoriaeth a diwrnodau hwyl. Mae gan y tîm gronfa fechan o deganau newydd hefyd, a rennir â theuluoedd sy'n dod i Sir Ddinbych os nad oes gan eu plant deganau.<br><br>Dywedodd un o'r mamau mewn un o'r digwyddiadau, "*Dyma'r tro cyntaf mewn deufis imi weld fy mhlentyn yn gwenu.*"<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cyfeirio teuluoedd a gwasanaethau at grwpiau mynediad agored a digwyddiadau cymunedol lle gallant gael cyfleoedd i chwarae.<br><br>Bu'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n cynorthwyo ffoaduriaid o Wcrain i setlo yn Sir Ddinbych drwy ddarparu sesiynau chwarae mewn ysgolion adeg egwyl a chynnal sesiynau chwarae wedi'u targedu er mwyn hwyluso'r drefn o bontio i addysg prif ffrwd yng Nghymru fel bod y plant a'r bobl ifanc yn mynd drwy gyn lleied â phosib o ofid. Anogwyd y | oes gan y Tîm Adsefydlu Ffoaduriaid gyllid i'w wario'n uniongyrchol ar gynorthwyo teuluoedd sy'n ceisio lloches i fynd i ddigwyddiadau. | diffygion. |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | plant hefyd i gymryd rhan yn y Sesiynau Chwarae ar ôl ysgol yn y gymuned leol a fyddai'n eu croesawu a'u helpu i setlo yn eu cymunedau newydd, a theimlo eu bod yn perthyn yno. | | |
| **13** | Caiff anghenion chwarae plant â phrofiad o fod mewn gofal eu deall a'u diwallu | **Newydd ar gyfer 2025** | **Oren** | Ystyrir anghenion plant â phrofiad o fod mewn gofal fel rhan o'u Cynlluniau Gofal a Chymorth, a gallai hynny gynnwys defnyddio'r gronfa gofal cymdeithasol i dalu i blant fynd i leoliadau gofal plant a chwarae i fodloni eu hanghenion datblygu a darparu cysondeb a sefydlogrwydd yn eu bywydau.<br>Gall plant gymryd rhan hefyd mewn sesiynau therapi chwarae un i un a gaiff eu haddasu yn ôl anghenion pob plentyn, sy'n ffordd o'u cefnogi wrth bontio i ofal, ac o ofal.<br><br>Darparodd Clwb CIC weithgareddau chwarae dros y gwyliau i blant mewn gofal ac maent hefyd yn darparu diwrnodau gweithgareddau a gwibdeithiau.<br><br>Mae'r gwasanaeth Plant sy'n Derbyn | Nid ydym wedi ystyried anghenion plant â phrofiad o fod mewn gofal yn benodol o'r blaen. | Bydd y Cydlynydd Chwarae Hygyrch yn cwrdd â'r tîm Plant sy'n Derbyn Gofal a chydlynydd Clwb CiC (Plant mewn Gofal) i drafod cyfleoedd i gynnig mwy o gefnogaeth i fodloni anghenion plant â phrofiad o fod mewn gofal. |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gofal wedi derbyn cyflwyniad ynglŷn â'r Gwasanaethau Ceidwaid Chwarae ac wedi sefydlu system i rannu gwybodaeth ynglŷn â Gweithgareddau a Digwyddiadau Chwarae gyda gofalwyr maeth. | | |
| **14** | Caiff anghenion chwarae plant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol eu deall a'u diwallu | - | - | Dyblygu mater 7 – gweler y dystiolaeth a ddarparwyd yn rhif 7 | - | - |
| **15** | Caiff anghenion chwarae gofalwyr ifanc eu deall a'u diwallu | **Oren** | **Oren** | Mae Gofalwyr Ifanc yn defnyddio Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc WCD, a ariennir ar y cyd yn Sir Ddinbych gan Wasanaeth Integredig Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg a'r Gwasanaethau Plant a chomisiynir y gwasanaethau ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Bwrdd | Atgyfeirio Gofalwyr Ifanc at sesiynau chwarae agored y Ceidwaid Chwarae i roi mwy o gyfleoedd iddynt chwarae'n lleol. | Mwy o gyfathrebu a chydweithio ymysg y partneriaid. |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae WCD yn asesu gofalwyr ifanc er mwyn deall eu hanghenion a llunio cynlluniau cefnogi ar sail hynny.<br><br>Yn ogystal â Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a sesiynau rheolaidd i grwpiau ac unigolion, mae ECD yn darparu amrywiaeth go helaeth o weithgareddau gydol y flwyddyn – gan gynnwys egwyliau preswyl i grwpiau bach o Ofalwyr Ifanc mewn amryw leoliadau.<br><br>Cynhelir sesiynau grŵp rheolaidd sydd fel arfer yn cynnwys cyfleoedd i chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau difyr.<br><br>Ymysg y gweithgareddau a ddarparwyd yn 2024-25 roedd:<br>• Chwarae meddal *Ninja Tag* yn SC2 yn y Rhyl.<br>• Diwrnod y Cellweirwyr yng Nghastell Conwy a dal crancod ar y Cei yng Nghonwy<br>• Gwersyll Gwyliau Plant Salford yn aros dros nos ym Mhrestatyn<br>• Sioe Môn a thraeth Llanddwyn | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Diwrnod allan ym Manley Mere.<br><br>Mae'r Tîm Ceidwaid Chwarae'n gweithio â Gofalwyr Ifanc WCD er mwyn annog y plant a phobl ifanc i ddod i'r sesiynau agored.<br><br>Bwriedir cynnal digwyddiad yn haf 2025 ar y cyd â Gofalwyr Ifanc WCD, Hamdden Sir Ddinbych Cyf a'r tîm Ceidwaid Chwarae i ddarparu cyfleoedd i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd chwarae a chael gwybodaeth am y sesiynau agored a gwasanaethau eraill sydd ar gael iddynt. | | |
| **16** | Mae gan brosiectau a darparwyr chwarae fynediad at amrywiaeth o adnoddau sy'n hybu cynhwysiant | **Oren** | **Oren** | Gall clybiau a sefydliadau chwaraeon lleol ymgeisio i Chwaraeon Cymru am gyllid drwy Gronfa Cymru Actif. Bydd Tîm Chwaraeon Cymunedol Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn eu cefnogi drwy'r broses.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae wedi ymweld ag ysgolion i hyrwyddo pwysigrwydd chwarae a darparu sesiynau i'r holl blant, a'u hannog i gymryd rhan yn y sesiynau chwarae agored yn y Sir. Mae | Oherwydd cwtogi ar gyllidebau ysgolion, nid ydynt yn prynu cymaint o wasanaethau | Cyllid i hyrwyddo pwysigrwydd amseroedd egwyl neilltuedig ar gyfer |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | clystyrau ysgolion ac ysgolion arbennig hefyd wedi prynu amser staff er mwyn i'r Ceidwaid Chwarae ddarparu sesiynau chwarae cynhwysol ac wedi'u targedu ac ehangu amseroedd egwyl neilltuedig ar gyfer chwarae pwrpasol. Mae ysgolion hefyd wedi comisiynu'r Rhaglen Ceidwaid Chwarae Bach i weithio â grwpiau o blant i ddatblygu eu timau Ceidwaid Chwarae eu hunain, a fyddai'n cael chwe mis o 'hyfforddiant' gan y Ceidwaid Chwarae i fedru dal i gynnal a hyrwyddo cyfleoedd chwarae amser egwyl a defnyddio'r storfeydd rhannau rhydd yn yr ysgolion a ariannwyd yn y gorffennol Grant Cyfleoedd Chwaraeon Cymru Gyfan, ond daeth hynny i ben ym mis Gorffennaf 2024 oherwydd gwasgfeydd ar gyllidebau ysgolion.<br><br>Derbyniodd yr holl ddarparwyr gofal plant a chwarae lawlyfr Rhannau Rhydd yn ystod y Gynhadledd Gofal Plant a Chwarae flynyddol a gynhaliwyd ym mis Hydref 2024, a | chwarae i mewn, ac felly darparwyd llai o sesiynau chwarae cynhwysol mewn ysgolion. | chwarae, ac arddangos y ddarpariaeth chwarae i staff ysgolion |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | luniwyd ar y cyd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'r Tîm Datblygu Gofal Plant a Chwarae. Mae'r llawlyfr yn rhoi'r adnoddau i ddarparwyr fedru cynnal archwiliad rhannau rhydd ac asesu buddion a risgiau ac mae'n cynnwys canllawiau ynglŷn â'r ffyrdd gorau o ddefnyddio'r rhannau rhydd a'r effaith y mae'r rhain yn ei gael ar ffrâm chwarae.<br><br>Yn achos plant sy'n cymryd rhan mewn darpariaeth y tu allan i'r ysgol ac yn ystod y gwyliau, sydd hefyd yn derbyn y Cynnig Gofal Plant 30 awr ac efallai angen adnoddau i gael mynediad at y ddarpariaeth honno, gellir ymgeisio am Grant Cymorth Ychwanegol i sicrhau bod y lleoliad dan sylw'n gynhwysol. Gellid gwario'r arian ar addasiadau i wneud y lleoliad yn hygyrch, offer y mae plentyn ei angen i gael mynediad at yr amgylchedd chwarae neu hyfforddiant i staff ar gyfer anghenion penodol, er mwyn sicrhau bod y darparwyr yn meddu ar yr adnoddau angenrheidiol. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae rhaglen Grantiau Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn cynnwys Cynllun Grantiau Bach sy'n galluogi darparwyr sydd wedi cofrestru ag AGC i ymgeisio am hyd at £20,000 bob blwyddyn i wella'r ddarpariaeth a chyfleoedd i chwarae. Gellir defnyddio'r grant hefyd i addasu lleoliadau neu brynu offer/adnoddau i wneud yr amgylchedd yn fwy cynhwysol. | | |
| **17** | Mae yno ddull cyfarwydd wedi'i gytuno ar gyfer pennu'r angen am ddarpariaeth ar wahân i blant ag Anghenion | **Oren** | **Oren** | Mae gan yr Awdurdod Lleol broses i weithwyr proffesiynol ei defnyddio wrth ymgeisio am gyllid i alluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at weithgareddau chwarae. Mae'r ffurflen yn rhwydd ei llenwi.<br><br>Mae yno gyfathrebu agored a thrafodaeth dda rhwng y Llyw-wyr Lles Anableddau a'r Arweinwyr Chwarae. Ceisir cyngor os bydd y naill neu'r llall yn ansicr o'r drefn. | Prinder darpariaeth ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol; mae rhieni'n gyndyn i'w plant fynd i weithgareddau prif ffrwd. | Ymchwilio ymhellach i feysydd lle mae angen darpariaeth ar wahân a meithrin cyswllt ag Ysgolion AAA.<br><br>Cyllid i sefydlu |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dysgu Ychwanegol | | | Mae yno brosesau cyfarwydd ar gyfer pennu anghenion plant ag anableddau; er enghraifft,<br>• Llyw-wyr Lles Anableddau,<br>• Swyddogion Teuluoedd yn Gyntaf,<br>• Ysgolion arbenigol,<br>• Cydweithio â phartneriaid ym maes Addysg y Blynyddoedd Cynnar (wedi'i dargedu),<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>• Ymwelwyr Iechyd,<br>• Tîm Portage a Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu.<br>Magwyd perthynas dda rhwng yr awdurdod lleol a'r darparwyr chwarae.<br>Mae'r awdurdod lleol yn adolygu'r prosesau a'r canllawiau ar gyfer darparu cefnogaeth ychwanegol i rai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a dylai hynny fod wedi'i gwblhau erbyn hydref 2025. Bydd y panel presennol yn dal ati tra cynhelir yr ymgynghoriad hwn. | | darpariaeth arbenigol a thalu am gostau staffio i'w gynnal. |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae Tîm Allgymorth Addysg Gynnar a Chyn Ysgol yr Awdurdod Lleol wedi sefydlu panel ar-lein sy'n ystyried ceisiadau drwy e-bost am adnoddau arbenigol, hyfforddiant a chefnogaeth gan oedolion i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos â gweithwyr iechyd proffesiynol i adnabod plant ag anghenion a hwyluso trefniadau ar gyfer unrhyw offer hyfforddi arbenigol sydd ei angen; er enghraifft, ar gyfer Codi a Symud yn Gorfforol<br><br>Mae'r tîm Allgymorth Cyn Ysgol yn gweithio'n agos â darparwyr cyn ysgol i roi cefnogaeth a chymorth iddynt gynnig amgylchedd a phrofiadau cynhwysol.<br><br>Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn comisiynu'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae i ddarparu cefnogaeth ychwanegol gan oedolion er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gael | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | mynediad at gyfleoedd i chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau ledled y sir. Bydd Cymorthyddion yn ystod y Gwyliau'n mynd â'r unigolion i'r gweithgareddau maent yn eu dewis, fel y Parth Chwaraeon, sesiynau Chwarae Agored, sesiynau'r Gwasanaeth Ieuenctid ac yn y blaen. Pan mae plant a phobl ifanc yn dewis darpariaeth gofrestredig y tu allan i'r ysgol ac yn ystod y gwyliau, mae'r awdurdod lleol yn darparu cyllid yn uniongyrchol i'r darparwr ar gyfer cefnogaeth ychwanegol gan oedolion a chynnal eu cymarebau staff fel y cofrestrwyd ag AGC.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n darparu sesiynau yn ysgolion arbennig Tir Morfa, Plas Brondyffryn a Thŷ'r Ysgol yn ogystal ag Uned Cyfeirio Disgyblion Cerrig Camu. Caiff plant gefnogaeth ac anogaeth i gymryd rhan mewn sesiynau chwarae agored yn y gymuned a darperir cefnogaeth ychwanegol gan oedolion os oes angen. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| **18** | Mae yno ddull cyfarwydd wedi'i gytuno ar gyfer pennu'r angen am ddarpariaeth ar wahân i blant anabl a'r rhai hynny sydd angen cefnogaeth ychwanegol | **Oren** | **Oren** | Sonnir am hyn yng nghyfeirnod 7 hefyd.<br><br>Ceir gweithdrefnau cyfarwydd ar gyfer adnabod plant sydd angen cefnogaeth ychwanegol i'w helpu i fodloni eu hanghenion chwarae. Mae gennym lwybrau y gall gweithwyr proffesiynol a rhieni eu dilyn i gael cefnogaeth drwy ein Llyw-wyr Lles i Bobl Anabl. Gall y Llyw-wyr Lles gynnal Sgwrs Beth sy'n Bwysig â'r teulu a'u cynorthwyo i gael mynediad at gefnogaeth addas drwy wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf neu Ofal Cymdeithasol i Blant. Magwyd perthynas dda rhwng yr awdurdod lleol a'r darparwyr chwarae.<br><br>Mae Rhaglen Integredig Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn comisiynu Prosiect Gweithgareddau Gwyliau a reolir gan y Cydlynydd Chwarae Hygyrch, sy'n trefnu sesiynau cefnogi un i un ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau fel y gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a | Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth iawn yn methu â chael mynediad at weithgareddau chwarae.<br><br>Prinder darpariaeth ar gyfer plant ag anableddau ac anghenion cymorth ychwanegol; mae rhieni'n gyndyn i'w plant fynd i weithgareddau prif ffrwd.<br><br>Ceir diffyg gwybodaeth a chyngor i ddarparwyr | Ymchwilio ymhellach i feysydd lle mae angen darpariaeth ar wahân a meithrin cyswllt ag Ysgolion AAA.<br><br>Cyllid i sefydlu darpariaeth arbenigol a thalu am gostau staffio i'w gynnal.<br><br>Bydd y diffyg |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hamdden yn ystod gwyliau ysgol.<br><br>Mae Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg hefyd yn cynorthwyo tîm ADY y Cyfnod Sylfaen i sicrhau y caiff plant anabl fynediad at gyfleoedd i chwarae.<br><br>Caiff plant a phobl ifanc ag anghenion arwyddocaol sy'n effeithio ar eu gallu i gael mynediad at gyfleoedd chwarae cyffredinol neu gyfleoedd â chymorth (Teuluoedd yn Gyntaf, er enghraifft) eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol i'w hasesu ac os ydynt yn gymwys, darperir cefnogaeth ychwanegol fel Cynorthwyydd Personol neu wasanaethau Chwarae arbenigol ar gyfer plant ag anableddau neu anghenion iechyd cymhleth. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol yn comisiynu dau o wasanaethau arbenigol ar gyfer plant na fedrant gael mynediad at y ddarpariaeth gyffredinol, hyd yn oed gyda chymorth – Clwb Sadwrn Synhwyraidd a gynhelir unwaith y mis a Chlwb Mentro Allan yn ystod Gwyliau Ysgol. Mae'r ddau o'r rhain | gweithgareddau chwarae i'w cefnogi i fodloni gofynion pobl ifanc ag anghenion ychwanegol.<br><br>Prinder staff yn y sector a reoleiddir i ddarparu cefnogaeth ychwanegol gan oedolion i fodloni anghenion y plant.<br><br>Ar ben hynny, mae rhai darparwyr cymunedol yn ei chael yn anodd bodloni anghenion plant sydd angen staff ychwanegol i'w cefnogi wrth | hwn yn cael sylw wrth adolygu ac ailstrwythuro'r Blynyddoedd Cynnar yn ystod 2025/26.<br><br>Cyfranogi o strategaethau a rhaglenni (fel Gofalwn Cymru) i recriwtio gweithwyr proffesiynol ym maes gofal plant<br><br>Bydd Teuluoedd yn Gyntaf yn ariannu costau staff |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | yn ddarparwyr gofal dydd sydd wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). | gymryd rhan mewn gweithgareddau, oherwydd prinder staff neu gostau recriwtio staff ychwanegol. | ychwanegol neu'n cyfrannu at dalu staff cyflenwi mewn lleoliadau a reoleiddir mewn rhai amgylchiadau. |
| **19** | Mae'r safleoedd a mannau a ddefnyddir i ddarparu cyfleoedd chwarae ar gael am ddim neu'n rhad i ddarparwyr | **Oren** | **Oren** | Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn meddu ar rywfaint o'r data ac yn cyfeirio pobl at wasanaethau perthnasol.<br><br>Caiff gwybodaeth ei chadw a'i hysbysebu ar wefan Sir Ddinbych a chyfryngau cymdeithasol.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n cynnal ei sesiynau 'Beth am Chwarae Allan' mewn mannau gwyrdd, clybiau pêl-droed lleol, parciau, caeau chwarae ysgolion a chaeau yng nghanol cymunedau a darperir y rhain am ddim. | Mae hyn yn dibynnu ar ddarparwyr allanol yn diweddaru eu gwybodaeth. | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Awdurdod Lleol yn annog sefydliadau i gadw eu gwybodaeth yn gyfoes ar DEWIS er mwyn hyrwyddo eu gwasanaethau. | | |
| **20** | Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu grantiau neu gymorthdaliadau i ddarparwyr gynnig cyfleoedd i chwarae | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn rheoli'r Cynllun Grantiau Bach fel rhan o Raglen Grantiau Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, a gall darparwyr sydd wedi cofrestru ag AGC i ymgeisio am gyllid i wella'r ddarpariaeth a chyfleoedd i chwarae.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu rhaglen hyfforddiant â chymhorthdal sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd a chymwysterau mewn Gwaith Chwarae fel y gall darparwyr ddal i wella'r cyfleoedd i chwarae.<br><br>Defnyddir cyllid cyfalaf Grant Cyfleoedd Chwaraeon Cymru Gyfan i fynd i'r afael â diffygion a bodloni anghenion a ddaw i'r amlwg, fel y'u nodir yng nghynllun gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd | Nid yw'r Grant Cyfleoedd Chwaraeon Cymru Gyfan gan Lywodraeth Cymru wedi'i warantu na'i ddarparu'n gyson i hwyluso mynediad at gyfleoedd i chwarae ac fe'i telir fel arfer yn y tri mis olaf o'r flwyddyn, sy'n ei gwneud yn anodd ei ddefnyddio'n effeithiol i ddatrys diffygion. | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Chwarae.<br><br>Mae gan yr Awdurdod Lleol wybodaeth ar grantiau tu allan i oriau ysgol, cyllid yr Asesiad, arian o'r gist gymunedol, cyllid Dechrau'n Deg ac yn y blaen.<br><br>Mae'r gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar/Gofal Plant a Grantiau Cymunedol eisoes wedi sicrhau grantiau ac/neu ymrwymo cyllid heb ei wario i gomisiynu gweithgareddau chwarae fel sesiynau Haf o Hwyl a Gaeaf Cynnes, gan gynnwys trefnu gweithgareddau chwarae ar y stryd gyda phrosiect Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl.<br><br>Mae'r gwasanaethau'n neilltuo cyllid ychwanegol i WCD bob blwyddyn ar gyfer seibiannau byr a gweithgareddau i ofalwyr ifanc dan 8. Bydd hynny'n parhau ac yn datblygu wrth i gyfleoedd ddod i'r amlwg.<br><br>Byddwn yn dal i gydweithio gyda budd-ddeiliaid mewnol ac allanol i ddatblygu cyfleoedd i chwarae. Byddwn yn dal i chwilio am unrhyw | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gyllid ychwanegol sydd ar gael i gynorthwyo â hyrwyddo chwarae.<br><br>Ar y cyd â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Ieuenctid a'r trydydd sector, rydym yn hyrwyddo unrhyw gyfleoedd am gyllid sydd ar gael i ddarparwyr a phrosiectau i gefnogi a hwyluso cyfleoedd i chwarae.<br><br>Darperir pecyn adnoddau i leoliadau newydd sy'n ymuno â Dechrau'n Deg, sy'n cynnwys manylion am gyllid ychwanegol sydd ar gael i gynorthwyo â chyfoethogi cyfleoedd i chwarae. | | |
| **21** | Darperir cludiant â chymhorthdal i blant deithio i leoliadau sy'n cynnig cyfleoedd i chwarae | **Gwyrdd** | **Oren** | Mae'r Gwasanaethau Ieuenctid yn darparu tocynnau bws i bobl ifanc fynd i sesiynau, cyfweliadau a chefnogaeth wedi'i thargedu.<br><br>Mae Dechrau'n Deg yn darparu bws mini i gludo plant a'u teuluoedd i ddigwyddiadau fel Ysgol Goedwig a'r Academi Nofio.<br><br>Mae gan wasanaeth integredig Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg fws mini i hwyluso mynediad at gyfleoedd, annog teuluoedd i gyfranogi o weithgareddau chwarae a | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chael gwared ar unrhyw rwystrau rhag mynediad at chwarae, lle bo modd.<br><br>Darperir cludiant am ddim ar gyfer y sesiynau sgiliau coedwig yn ystod gwyliau'r haf.<br><br>Cynhelir sesiynau chwarae agored y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae mewn amryw gymunedau ledled Sir Ddinbych i roi rhwydd hynt i blant a phobl ifanc at sesiynau lleol.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n bwriadu cynnal sesiynau chwarae yn Ysgol Uwchradd Prestatyn, gan gynnwys darparu brecwast a chludiant i blant sy'n byw yng nghefn gwlad. Bydd hynny'n cychwyn yn haf 2025. | Darparu mwy o sesiynau agored mewn cymunedau mwy gwledig fel nad yw diffyg mynediad at gludiant yn atal neb rhag mynd i'r sesiynau. | Cyllid i dalu costau staff i gynnal sesiynau ychwanegol mewn mwy o leoedd, fel bod mwy o sesiynau lleol.<br>. |

**Poblogaeth: Sylwadau ychwanegol – Materion A, B a D**

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r data poblogaeth mewn amryw ffyrdd at ddibenion cynllunio a sicrhau fod yno ddigon o gyfleoedd i chwarae ledled y sir, drwy adnabod yr ardaloedd â'r anghenion mwyaf ar sail dwysedd y boblogaeth ac oedrannau plant a phobl ifanc, ardaloedd difreintiedig, cymunedau mwy gwledig, ardaloedd â mannau chwarae o ansawdd gwael a datblygiadau tai newydd. Mae hynny hefyd yn ein galluogi i gynnal archwiliadau o gyfleoedd chwarae ac asesu mor hygyrch yw'r ddarpariaeth i bobl leol, a thrwy hynny gallwn gadw golwg barhaus am ddiffyg mannau chwarae a chyfleoedd i chwarae. Fel hyn, gallwn sicrhau fod yno gynllun gweithredu cyson ac ystyriol yn deillio o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae sy'n adlewyrchu'r sefyllfa sydd ohoni ac yn sicrhau fod y cyfleoedd i chwarae yn Sir Ddinbych yn deg, effeithlon ac yn gynaliadwy wrth i bethau newid yn y dyfodol.

Mae'r awdurdod lleol yn gwneud ymdrech i ddarparu llawer o gyfleoedd i blant gael mynediad at ddarpariaeth chwarae am ddim neu'n rhad, gan gynnwys Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae teithiol a hygyrch sy'n darparu amryw gyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae yn eu cymunedau lleol ac yn helpu i gael gwared â rhwystrau rhag manteisio ar gyfleoedd i chwarae am ddim mewn mannau diogel, gan gynnwys darparu mynediad i dir rhai ysgolion y tu allan i oriau. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cydnabod yr ardaloedd hynny lle mae angen mwy o ddarpariaeth ac yn deall beth sydd ei angen i oresgyn y rhwystrau, ac mae'n gweithio'n gyson i geisio datrys y problemau ac ymestyn y cyfleoedd chwarae cynhwysol, yn enwedig i blant ag anableddau neu anghenion ychwanegol, plant o deuluoedd incwm isel neu rai sy'n byw mewn cymunedau gwledig neu ddifreintiedig.

Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy at brosiectau sy'n creu cysylltiadau rhwng cymunedau ar y ffin. Darparwyd grantiau ar y cyd i gynnal prosiectau wedi'u targedu at blant a phobl ifanc 11 oed a hŷn mewn cymunedau lleol, lle bu timau Chwarae'r naill awdurdod lleol a'r llall yn cydweithio.

Yr heriau mwyaf a gafwyd oedd sicrhau cyllid refeniw i ddarparu digon o gyfleoedd. Cyllid i staff fedru darparu mwy o gyfleoedd i chwarae mewn ardaloedd lle mae anghenion wedi'u nodi, cefnogaeth ac arweiniad i ddarparwyr a gwasanaethau fel y gallant ddarparu cyfleoedd chwarae i blant ag anableddau neu anghenion ychwanegol, a chyfyngiadau ar grantiau i blant ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Cydnabyddir fod angen mwy o sgyrsiau cydweithredol a chyfleoedd i adrannau a gwasanaethau gydweithio i ddarparu a hwyluso mynediad at gyfleoedd i blant chwarae pan maent yn defnyddio amryw wasanaethau yn eu cymunedau.

Mae Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'r awdurdod lleol wedi datblygu a thyfu ers yr Asesiad diwethaf o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac yn 2023-24, bu mwy na 22,000 o gyfranogwyr yn y sesiynau a ddarparwyd mewn cymunedau lleol. Enillodd y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae

Wobr i Gydnabod Llwyddiant yng Nghynhadledd Gofal Plant a Chwarae Sir Ddinbych yn 2024. Er bod y gwasanaeth wedi ennill ei blwyf ac yn boblogaidd, mae cyllid wedi lleihau ers 2022, gan gynnwys y cyllid ar gyfer Haf o Hwyl/Gaeaf Llawn Lles, sydd wedi cael effaith ar y nifer o sesiynau y gallai'r gwasanaeth eu darparu mewn cymunedau lleol. Mae'r Tîm Ceidwaid Chwarae'n adnabyddus yn yr holl ysgolion yn Sir Ddinbych ac mae ganddynt berthynas wych â'r plant.

- Camau gweithredu a ystyriwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu Chwarae – 3, 4, 7, 10, 13, 15, 16, 18, 21
- Camau gweithredu a gytunwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu Chwarae – 3, 7, 17
- Sail resymegol ar gyfer blaenoriaethu'r camau gweithredu – bydd y canlyniadau sy'n deillio o'r camau gweithredu y cytunwyd i roi blaenoriaeth iddynt yn y Cynllun Gweithredu Chwarae'n cyflawni'r rhan helaeth o'r canlyniadau arfaethedig eraill a fyddai wedi deillio o gamau gweithredu eraill a fu dan ystyriaeth, ond nid pob un. Roedd y themâu a ddaeth i'r amlwg wrth gynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n debyg i rai o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn Asesiad 2022, yn enwedig ynghylch darparu ar gyfer plant ag anableddau neu anghenion ychwanegol. Ceir diffyg hefyd ar gyfer 12, ond ni all yr awdurdod lleol ddatrys hynny gan mai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n pennu'r meini prawf ar gyfer cyllid sy'n achosi'r diffyg. Rhoddir sylw'n bennaf i'r camau gweithredu a ddetholwyd yn y deuddeg mis nesaf, ond cedwir y camau gweithredu eraill a ystyriwyd dan adolygiad ac efallai y caiff y rheiny flaenoriaeth mewn cynlluniau gweithredu yn y dyfodol cyn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn 2028.

## Thema: Lleoedd mae plant yn chwarae

Mae a wnelo'r thema hon â:

**Mater C: Lle gall plant chwarae, yn cynnwys lle agored, ac unrhyw le arall**
**Mater Dd: Mesurau traffig sy'n cael eu defnyddio i hybu mynediad i chwarae**
**Mater Ff: Y graddau y mae polisïau addysg a chynlluniau datblygu lleol yn ystyried yr angen i wella cyfleoedd chwarae i blant**

**Cyfeirnodau meini prawf yr Awdurdod Lleol 22 i 56**

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **22** | Cedwir cofnod cyfoes o'r holl leoedd chwarae dynodedig, fel y disgrifir yn y [Canllawiau Statudol]() | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Archwilir y mannau chwarae sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol bob blwyddyn.<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnod cyfoes o hynny sydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Awdurdod Lleol.<br><br>Cynhaliodd y Tîm Chwarae archwiliad yn ddiweddar o'r holl leoedd chwarae dynodedig a defnyddiwyd y wybodaeth i ddiweddaru'r wefan.<br><br>Crëwyd map rhyngweithiol o ogledd Cymru. Ariannwyd y prosiect gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a bydd yn ymddangos ar y wefan Iechyd, Lles a Gwytnwch Emosiynol. Bydd y wefan yn darparu gwybodaeth am gyfleoedd a lleoedd i chwarae am ddim neu'n rhad. Mae'r tîm Chwarae wedi cael hyfforddiant i ddiweddaru'r wefan er mwyn ei chadw'n gyfoes a darparu gwybodaeth am sesiynau chwarae agored ac unrhyw ddarpariaeth chwarae arall sydd ar gael. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gellir diweddaru'r wefan unrhyw bryd ac felly mae'r wybodaeth yn gyfoes.<br><br>Open Space Portfolio 2024.pdf | | |
| **23** | Asesir mannau a chaeau chwarae yn ôl eu gwerth ar gyfer chwarae a'r potensial i fwy o blant a phobl ifanc eu defnyddio | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Adnewyddwyd nifer o fannau chwarae yn y flwyddyn ddiwethaf er mwyn gwella eu hygyrchedd a'u gwerth ar gyfer chwarae, a bydd hynny'n parhau os oes cyllid ar gael. | | |
| **24** | Asesir mannau cyhoeddus yn ôl eu | **Gwyrdd** | **Oren** | Cynhaliwyd prosiectau wedi'u hariannu drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ddiweddar yng Nghae Ddôl, Rhuthun a Gerddi'r Coroni, Prestatyn er mwyn darparu cyfleoedd chwarae hygyrch. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gwerth ar gyfer chwarae a'r potensial i fwy o blant a phobl ifanc eu defnyddio i chwarae, fel y nodir yn y Canllawiau Statudol | | | Cynhaliwyd asesiad o fannau agored a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.<br><br>Canfyddiadau Allweddol o'r Ymgynghoriad:<br><br>• Amlygodd yr ymgynghoriad gryn bryderon ynglŷn â chyflwr ac ansawdd mannau agored, ac yn enwedig felly mannau chwarae. Pwysleisiodd budd-ddeiliaid mor bwysig oedd rheolaeth leol a bod angen gwelliannau mewn meysydd penodol.<br>• Soniwyd am drafferthion â chynnal a chadw, yn enwedig gyda mannau chwarae a gwelyau blodau.<br><br>**Defnyddio Mannau Agored ac Anghenion y Gymuned**<br><br>Amlygodd yr ymgynghoriad fod pobl yn fodlon ar y cyfan â defnyddio mannau agored, er bod diffyg cyfleusterau digonol i bob oedran mewn rhai | Roedd cwtogi ar gyllidebau'n amharu ar wasanaethau cynnal a chadw tir ac ansawdd y mannau chwarae.<br><br>Mynegwyd pryderon ynglŷn â darpariaeth annigonol i blant bach a phlant hŷn. Ymysg yr | Gallai timau rheoli lleol gynnal a chadw'r safleoedd yn well a chael mynediad at grantiau i wella ansawdd mannau chwarae ymhellach.<br><br>Cynnal mwy o archwiliadau i ganfod meysydd o ddarpariaeth annigonol i blant bach a phlant hŷn a'r sefyllfa gyda |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | mannau. Nodwyd gwelliannau penodol sydd eu hangen mewn amryw gymunedau.<br><br>Soniwyd bod y gymuned yn defnyddio'r rhan helaeth o'r safleoedd yn aml. | anghenion a nodwyd roedd meinciau, biniau sbwriel a gwell offer chwarae.<br><br>Roedd diffyg cyfleusterau digonol i bob oedran mewn rhai ardaloedd. | meinciau, biniau sbwriel a gwella meysydd chwarae, a gwneud cynigion.<br><br>Defnyddio Grant Cyfalaf Cyfleoedd Chwaraeon Cymru Gyfan i ddatrys y diffygion. |
| **25** | Cynhaliwyd Asesiad o Fannau Agored i fapio'r ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer | **Gwyrdd** | **Oren** | Cynhaliwyd asesiad o fannau agored a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Sir Ddinbych. | Ni ymgynghorwyd â'r Gwasanaethau Plant na'r Tîm Chwarae wrth gynnal yr Asesiad o | Wrth gynnal Asesiadau yn y dyfodol, dylid ymgynghori â'r Rheolwr Datblygu Gofal Plant a |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | chwarae neu y gellid eu defnyddio, fel y nodir yn y Canllawiau Statudol | | | | Fannau Agored. | Chwarae a'r Gwasanaethau Plant er mwyn sicrhau y clywir barn y swyddogion arweiniol ym meysydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Gofal Plant ynglŷn â'r anghenion. |
| **26** | Datblygwyd Safonau Mannau Agored yn unol â chyfarwyddyd a gofynion Polisi | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ar gyfer 2006 – 2021 yn cynnwys safonau mannau agored sy'n cydymffurfio'n llwyr â Pholisi Cynllunio Cymru a NCT 16. Adolygir y rhain wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ond byddant yn dal yn cydymffurfio bob amser. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynllunio Cymru | | | | | |
| **27** | Asesir mannau gwyrdd yn ôl eu gwerth ar gyfer chwarae a'r potensial am fwy o chwarae | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Cynhaliwyd asesiad o fannau agored a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.<br><br>Ceir map i ddangos ble mae pob lle chwarae.<br><br>Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd Asesiad o Isadeiledd Gwyrdd a chyhoeddwyd y canlyniadau: https://www.denbighshire.gov.uk/cy/dogfennau/rheoliadau-cynllunio-ac-adeiladu/cynllun-datblygu-lleol/tystiolaeth-monitro-a-gwybodaeth/asesiad-isadeiledd-gwyrdd-sir-ddinbych.pdf | | |
| **28** | Asesir mannau mewn cymdogaethau yn ôl eu gwerth ar gyfer chwarae a'r | **Newydd ar gyfer 2025** | **Oren** | Ni wneir asesiad ffurfiol o fannau mewn cymdogaethau yn ôl eu gwerth ar gyfer chwarae. Ymgynghorir â chymunedau i ganfod sut orau i wella'r mannau dan sylw i greu mwy o botensial am chwarae. Cynhelir yr ymgyngoriadau hyn yn achlysurol pan ddaw cyllid ar gael. Adnewyddwyd y man gwyrdd yng Nghlawdd Poncen yng Nghorwen yn ddiweddar, gan gynnwys gosod trac | Nid oes trefn ffurfiol ar gyfer asesu. | Magu dealltwriaeth yn fewnol ac ymchwilio i sefydlu dull asesu ffurfiol. |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | potensial am fwy o chwarae | | | pwmpio i feics mynydd a goliau pêl-droed. Gwnaed hynny yn dilyn ymgynghori â'r cyhoedd. | | |
| **29** | Cynhelir archwiliadau hygyrchedd ymhob lle chwarae dynodedig a gweithredir cynigion i wella hygyrchedd a diogelwch | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Cedwir golwg ar hygyrchedd drwy arolygiadau diogelwch rheolaidd yr awdurdod lleol.<br><br>Cynhaliodd y tîm Ceidwaid Chwarae archwiliadau o 36 o barciau a lleoedd chwarae yn Sir Ddinbych yn 2022, ar y cyd â STAND Cymru. Diben yr archwiliadau oedd canfod a ddyluniwyd mannau chwarae yn Sir Ddinbych mewn modd sy'n cefnogi chwarae cynhwysol i blant a phobl ifanc o bob oedran a gallu.<br><br>STAND NW park audit report.pdf<br><br>Cynhaliodd y Tîm Ceidwaid Chwarae archwiliad o'r mannau chwarae ledled Sir Ddinbych ddechrau 2025, gan gynnwys bwrw golwg ar hygyrchedd ac offer addas i rai ag anableddau. Bydd y | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | wybodaeth honno'n creu darlun ehangach ar y wefan newydd Mentro Allan y mae Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru ar fin ei lansio tua diwedd 2025. | | |
| **30** | Mae safon ar gyfer gosod offer chwarae sefydlog newydd wedi'i ddatblygu a'i gytuno | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae'r awdurdod lleol yn monitro ei ddarpariaeth chwarae'n gyson ac yn defnyddio unrhyw gyllid sydd ar gael i gynnal rhaglen foderneiddio.<br><br>Yn 2024, cafwyd cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i ailwampio'r offer chwarae yng Nghae Ddôl yn Rhuthun yn llwyr, gan greu cae chwarae hygyrch sy'n gosod patrwm i'w ddilyn wrth ddatblygu parciau a lleoedd chwarae yn y dyfodol. | | |
| **31** | Asesir safleoedd tir llwyd ym meddiant yr awdurdod lleol yn ôl y potensial i'w hadfer i greu | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae Llwybrau Marsh yn y Rhyl yn enghraifft dda o safle tir llwyd a ddatblygwyd y mae'r gymuned leol yn ei ddefnyddio'n helaeth. Mae'n enghraifft flaenllaw o safle tir llwyd sydd wedi ei adnewyddu a'i droi'n ddarpariaeth ar gyfer chwarae a hamdden. O safbwynt hamdden, mae'r safle'n addas ar gyfer amryw fathau o feicio. Nid oes unrhyw offer chwarae pwrpasol ac ni chynhelir | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | lleoedd i blant chwarae | | | sesiynau ffurfiol ar y safle, ond cynhelir sesiynau gwirfoddoli ymarferol.<br><br>Mae Coed y Morfa, ar yr hen safle tirlenwi ym Mhrestatyn, â dau ddiben – rhandiroedd â gwelyau planhigion uchel (ar yr hen safle amwynder dinesig) a 13.63 hectar o goetir cymunedol. Bwriedir gwella'r llwybrau hefyd fel bod y lle'n hygyrch i bawb.<br><br>Mae'r gwasanaethau cefn gwlad hefyd yn cynnal prosiectau hamdden. | | |
| **32** | Cydymffurfir â Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020, sy'n mynnu bod meysydd | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Gwaherddir pobl rhag ysmygu a fepio yn yr holl ardaloedd chwarae ac mae arwyddion priodol wedi'u gosod yn yr holl ardaloedd chwarae. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | chwarae yng Nghymru'n ddi-fwg | | | | | |
| **33** | Cafwyd gwared ag arwyddion 'dim gemau pêl' ac ati er mwyn annog mwy o blant i chwarae yn y gymuned | **Oren** | **Oren** | Nid oes ond ychydig o arwyddion 'Dim Gemau Pêl' ar ôl mewn ambell i le chwarae sy'n agos at dai pobl. | Ceir arwyddion 'Dim Gemau Pêl' o hyd mewn parciau lleol y mae cynghorau tref a chymuned yn eu rheoli. | Cwrdd â Chynghorau Tref a Chymuned i'w hannog i gael gwared ag arwyddion lle bo hynny'n briodol a darparu arwyddion Ardal Blaenoriaeth i Chwarae er mwyn annog plant i chwarae yn y gymuned. |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **34** | Codwyd arwyddion Ardal Blaenoriaeth i Chwarae neu rai tebyg er mwyn annog mwy o blant i chwarae yn y gymuned | **Coch** | **Oren** | Gosodwyd ychydig o fyrddau cyfathrebu ond ni chodwyd unrhyw arwyddion Blaenoriaeth i Chwarae hyd yn hyn. | Diffyg arwyddion a byrddau cyfathrebu | Dechrau gosod arwyddion Blaenoriaeth i Chwarae a mwy o fyrddau cyfathrebu, a'u hystyried wrth gynllunio unrhyw waith adnewyddu neu ddatblygiadau newydd |
| **35** | Cydnabyddir mor bwysig yw caeau chwarae i blant wrth benderfynu a ddylid gwerthu eiddo | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Ni fwriedir gwerthu unrhyw eiddo yn y tymor byr a'r tymor canolig. Wrth benderfynu a ddylid gwerthu unrhyw eiddo, rhoddid ystyriaeth i'r effaith ar gyfleoedd i blant chwarae. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| **36** | Caiff plant a'u teuluoedd eu cynnwys mewn unrhyw ymgyngoriadau ynglŷn â phenderfyniadau i werthu caeau chwarae | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Ni fwriedir gwerthu unrhyw gaeau chwarae ac ni wnaethpwyd hynny yn yr wyth mlynedd diwethaf. | | |
| **37** | Cynhelir archwiliadau hygyrchedd o bob safle, fel y disgrifir yn y Canllawiau Statudol | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Cynhelir archwiliadau hygyrchedd penodol sydd eu hangen yn dilyn ceisiadau penodol gan y cyhoedd neu sefydliadau eraill.<br><br>Cynhaliodd y tîm Ceidwaid Chwarae Archwiliad o Leoedd Chwarae ar y cyd â STAND Cymru, gan asesu mor addas yw'r meysydd chwarae yn Sir Ddinbych, a bu hynny'n sail ar gyfer ailddatblygu Cae Ddôl yn Rhuthun. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cynhaliodd y Tîm Ceidwaid Chwarae archwiliad o'r mannau chwarae ledled Sir Ddinbych ddechrau 2025, gan gynnwys bwrw golwg ar hygyrchedd ac offer addas i rai ag anableddau. Bydd y wybodaeth honno'n creu darlun ehangach ar y wefan newydd Mentro Allan y mae Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru ar fin ei lansio. | | |
| **38** | Cyfeirir at ganllawiau ar gyfer creu lleoedd chwarae *hygyrch* wrth adnewyddu caeau chwarae neu ddatblygu rhai newydd | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Pan osodir unrhyw offer newydd yn unrhyw un o'r mannau chwarae y mae'r awdurdod lleol yn berchen arnynt, rhoddir ystyriaeth i'r meini prawf hygyrchedd bob amser, sy'n gyson â'r canllawiau ynglŷn â chreu lleoedd chwarae hygyrch. | | |
| **39** | Mae partneriaid | **Coch** | **Gwyrdd** | Mae tîm Diogelwch Ffyrdd a Theithio Llesol Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio'n agos â Heddlu | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | yn cydweithio i ganfod dull o asesu effaith gostwng terfynau cyflymder a chynlluniau eraill er diogelwch ffyrdd ar gyfleoedd i blant chwarae yn yr awyr agored yn eu cymunedau | | | Gogledd Cymru i adnabod mannau gwael am ddamweiniau a phroblemau i ddefnyddwyr diamddiffyn o'r ffyrdd, gan gynnwys plant yn cerdded, a datrys y problemau hynny.<br><br>Hefyd, mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio mewn partneriaeth â Sustrans ar amryw gynlluniau diogelwch ar y ffyrdd a theithio llesol sydd â'r nod o annog a galluogi plant i gerdded a beicio yn eu hardaloedd lleol. | | |
| **40** | Ceir cynllun i leihau effeithiau negyddol sy'n deillio o ffyrdd a | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Ceir Map Rhwydwaith Integredig sirol sy'n dangos prosiectau tymor byr/canolig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r holl brosiectau sy'n awr yn mynd rhagddynt. | Mae grantiau Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar gyrchfannau | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | chyffyrdd prysur drwy gyflwyno dulliau lleihau cyflymder a darparu mannau croesi a llwybrau diogel i gerddwyr a beicwyr | | | Mae'r awdurdod lleol bob amser yn ymateb i geisiadau am gamau o'r fath neu anghenion a ddaw i'r amlwg. | penodol fel Clinigau Iechyd a Chanolfannau Hamdden ac nid ydynt yn cynnwys mannau chwarae awyr agored neilltuol fel parciau a chaeau chwarae | |
| **41** | Ceir cynllun i wella mynediad i gerddwyr a beicwyr o ardaloedd preswyl at barciau, cyfleusterau | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae grantiau Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar gyrchfannau penodol fel Clinigau Iechyd a Chanolfannau Hamdden ac nid ydynt yn cynnwys mannau chwarae awyr agored neilltuol fel parciau a chaeau chwarae.<br>.<br>Mae'r awdurdod lleol yn mabwysiadu'r Llawlyfr Strydoedd o fewn pob datblygiad newydd neu unrhyw newidiadau arfaethedig yn y rhwydwaith | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | chwarae yn yr awyr agored a chanolfannau hamdden lleol. I'w gynnwys ar fapiau'r rhwydwaith Teithio Llesol | | | priffyrdd.<br><br>Mae'r awdurdod lleol yn cyfeirio at ac yn cydymffurfio â chanllawiau dylunio Deddf Teithio Llesol wrth ddatblygu cyfleusterau o'r fath. | | |
| **42** | Defnyddir grantiau diogelwch ffyrdd a/neu gyllid arall i ddarparu hyfforddiant ynghylch diogelwch i gerddwyr a gwersi beicio i blant | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae tîm Chwaraeon Cymunedol Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn darparu'r hyfforddiant Beicio Cenedlaethol Lefel 1 a 2 yn ysgolion Sir Ddinbych. Darperir yr hyfforddiant i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn yr holl ysgolion cynradd.<br>Cymerodd 735 o ddisgyblion ran yn 24/25.<br>Mae'r tîm hefyd yn cynnig sesiynau Dysgu Beicio a Beicwyr Bach (beiciau cydbwyso) | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| 43 | Ceir dull hwylus a hyrwyddir yn effeithiol o drefnu cau ffyrdd dros dro er mwyn galluogi mwy o blant i chwarae y tu allan i'w cartrefi | Coch | Coch | Mae aelod o staff yn yr Adran Draffig yn mynd i seminar "Strydoedd Cyfeillgar i Blant' ar 28 Mawrth i wella gwybodaeth a dealltwriaeth a galluogi'r awdurdod lleol i lunio polisïau yn y dyfodol. | Ni chaiff unrhyw ffyrdd eu cau dros dro i annog mwy o blant i chwarae y tu allan i'w cartrefi ar hyn o bryd yn Sir Ddinbych, ond mae'r awdurdod lleol wrthi'n ystyried y potensial i gyflwyno 'hidlyddion moddol' fel rhan o rai cynlluniau teithio llesol. | Awgrymu cyfarfod yn y dyfodol rhwng Addysg a Gwasanaethau Plant, Peiriannydd Teithio Llesol a Gwasanaethau Stryd er mwyn ymchwilio i'r cyfleoedd. |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| **44** | Defnyddir canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol wrth ystyried datblygiadau newydd a newidiadau yn y rhwydwaith priffyrdd/parth trefol er mwyn sicrhau y caiff llwybrau diogel a chyfleus i gerdded, beicio a mynd ar olwynion eu | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae grantiau Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar gyrchfannau penodol fel Clinigau Iechyd a Chanolfannau Hamdden ac nid ydynt yn cynnwys mannau chwarae awyr agored neilltuol fel parciau a chaeau chwarae.<br><br>Mae'r awdurdod lleol yn mabwysiadu'r Llawlyfr Strydoedd o fewn pob datblygiad newydd neu unrhyw newidiadau arfaethedig yn y rhwydwaith priffyrdd.<br><br>Mae'r awdurdod lleol yn cyfeirio at ac yn cydymffurfio â chanllawiau dylunio Deddf Teithio Llesol wrth ddatblygu cyfleusterau o'r fath. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | cynnwys o'r cychwyn cyntaf | | | | | |
| **45** | Defnyddir data ynghylch damweiniau ffordd sy'n anafu plant yn cerdded yn sail ar gyfer targedu a dylunio ymyriadau sy'n helpu plant i deithio o amgylch eu cymunedau'n annibynnol | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae'r awdurdod lleol yn aelod o Grŵp Strategol Lleihau Damweiniau Gogledd Cymru. Mae'r grŵp yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, sy'n darparu data ynglŷn â damweiniau fel y gellir adnabod problemau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **46** | Defnyddir cyllid o'r Gronfa Teithio Llesol, grantiau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a Diogelwch Ffyrdd a/neu gyllid o ffynonellau eraill i hybu mynediad i blant at gyfleoedd i chwarae. Un enghraifft o hynny yw'r cynlluniau strydoedd ysgol a | **Oren** | **Oren** | Wrth drefnu cyfleusterau cymdeithasol cyffredinol a chludiant i blant i'r ysgol, mae'r awdurdod lleol yn ystyried eu hanghenion.<br><br>Bu Cyngor Sir Ddinbych yn cymryd rhan mewn cynllun peilot Strydoedd Ysgol yn ystod 2023/24 a 2024/25, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Diben y cynllun peilot oedd arbrofi â Strydoedd Ysgol mewn amryw ysgolion yn Sir Ddinbych i weld a fyddai'n ymarferol i'w troi'n Strydoedd Ysgol yn barhaol. | Er bod gwaith wedi'i wneud i ymchwilio i effaith a manteision y cynllun Strydoedd Ysgol, nid oes unrhyw gynlluniau parhaol wedi'u sefydlu ar hyn o bryd. | Bwriedir cyflwyno adroddiad ynglŷn â'r effaith a'r manteision a welwyd yn y cynlluniau peilot i Gabinet Cyngor Sir Ddinbych yn hydref 2025, i geisio cymeradwyaeth i fynd ati i greu Strydoedd Ysgol parhaol yn Sir Ddinbych. |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ariennir â'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Mae'r rhain yn creu cyfleoedd i chwarae ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. | | | | | |
| **47** | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod a diwallu anghenion plant i chwarae yn | **Coch** | **Oren** | Mae'r awdurdod lleol yn ystyried anghenion mynediad cyffredinol mewn cymunedau â chyfleusterau chwarae, er nad yw'n benodol yn ystyried anghenion plant o ran mynediad i gyfleoedd chwarae.<br><br>Yn ystod 2024, defnyddiwyd cyllid o'r Gronfa Ffyniant Bro i adnewyddu Cae Ddôl yn Rhuthun, gan gynnwys creu llwybr teithio llesol 480 metr | Ni fu newid ers yr Asesiad diwethaf. Nid yw grantiau Llywodraeth Cymru'n ymdrin yn | Bod Addysg a Gwasanaethau Plant a'r Peiriannydd Teithio Llesol yn cydweithio wrth ymchwilio i gyfleoedd i hwyluso |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | yr awyr agored. | | | newydd i'w gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio drwy'r parc. | benodol â mannau chwarae yn yr awyr agored fel parciau a chaeau chwarae, ond yn hytrach yn canolbwyntio ar gyrchfannau penodol fel Clinigau Iechyd a Chanolfannau Hamdden. | mynediad at gyfleoedd i chwarae. |
| **48** | Mae ysgolion yn sicrhau bod gan blant amgylchedd chwarae | **Oren** | **Oren** | Anogir ysgolion drwy eu gwaith Iechyd a Lles a hyfforddiant Cyngor yr Ysgol i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd i blant chwarae amser egwyl gan gynnwys amrywiaeth o offer, digon o le i chwarae gemau a rhannu meysydd chwarae'n barthau. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | cyfoethog ar gyfer egwyliau yn ystod y diwrnod ysgol | | | Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae wedi ymweld ag ysgolion i hyrwyddo pwysigrwydd chwarae a darparu sesiynau i'r holl blant, a'u hannog i gymryd rhan yn y sesiynau chwarae agored yn y Sir. Mae clystyrau ysgolion ac ysgolion arbennig hefyd wedi prynu amser staff er mwyn i'r Ceidwaid Chwarae ddarparu sesiynau chwarae cynhwysol ac wedi'u targedu ac ehangu amseroedd egwyl neilltuedig ar gyfer chwarae pwrpasol.<br><br>Mae ysgolion hefyd wedi comisiynu'r Rhaglen Ceidwaid Chwarae Bach i weithio â grwpiau o blant i ddatblygu eu timau Ceidwaid Chwarae eu hunain, a fyddai'n cael chwe mis o 'hyfforddiant' gan y Ceidwaid Chwarae i fedru dal i gynnal a hyrwyddo cyfleoedd chwarae amser egwyl a defnyddio'r storfeydd rhannau rhydd yn yr ysgolion a ariannwyd yn y gorffennol Grant Cyfleoedd Chwaraeon Cymru Gyfan, ond daeth hynny i ben ym mis Gorffennaf 2024 oherwydd gwasgfeydd ar gyllidebau ysgolion. | Oherwydd cwtogi ar gyllidebau ysgolion, nid ydynt yn prynu cymaint o wasanaethau chwarae i mewn, ac felly darparwyd llai o sesiynau chwarae cynhwysol mewn ysgolion. | Cyllid i hyrwyddo pwysigrwydd amseroedd egwyl neilltuedig ar gyfer chwarae, ac arddangos y ddarpariaeth chwarae i staff ysgolion |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Bu'r tîm Ceidwaid Chwarae'n gweithio â chriw dethol o ysgolion ledled y sir gan ofyn iddynt lenwi'r arolwg amser chwarae ysgol. Gall y tîm Chwarae ddefnyddio'r wybodaeth i ganfod a oes angen cefnogaeth ar unrhyw ysgolion.<br><br>Cynhaliwyd grwpiau ffocws mewn ysgolion i roi cyfle i holi plant a oeddent yn fodlon â'r cyfleoedd i chwarae a ddarperid yn yr ysgol. Llenwodd y plant yr arolwg amser chwarae ysgol hefyd. | Soniodd plant yr hoffent i amseroedd chwarae fod yn hwy ac na ddylid cyfyngu ar eu hegwyliau oherwydd ymddygiad gwael.<br><br>Credant y dylai fod mwy o adnoddau ar gael iddynt amser egwyl i fedru gwneud mwy o weithgareddau chwarae. Soniodd y | Bod y Cydlynydd Chwarae Hygyrch yn cymryd rhan yn Grŵp Iechyd a Lles Sir Ddinbych (Ysgolion 3 – 18)<br><br>Neilltuo cyllid cyfalaf a refeniw ychwanegol ar gyfer staff ac adnoddau chwarae yn yr ysgol a thu hwnt. |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | plant hefyd yr hoffent gael mwy o sesiynau Ceidwaid Chwarae, boed hynny yn yr ysgol neu gerllaw ar ddiwedd y diwrnod ysgol. | |
| **49** | Mae ysgolion yn darparu cyfleoedd i chwarae y tu hwnt i oriau | **Oren** | **Oren** | Mae clybiau brecwast, egwyliau a chlybiau ar ôl ysgol yn darparu cyfleoedd i blant ddewis y gweithgareddau/gemau y dymunant gymryd rhan ynddynt, ac anogir hynny hefyd drwy'r gwaith Iechyd a Lles a llais y disgybl. | Gallai gwasgfeydd ar gyllid refeniw i ysgolion greu heriau wrth | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | addysgu | | | Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n cefnogi ysgolion sydd wedi adnabod plant sy'n cael trafferth cymdeithasu drwy ddarparu ymyriadau sy'n seiliedig ar chwarae. Cefnogwyd plant i gymryd rhan mewn sesiynau chwarae agored ar ôl ysgol, gan eu bod yn gyfarwydd â'r tîm chwarae ac yn cymryd rhan mewn mwy o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol a chwarae.<br><br>Bu'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n gweithio'n agos ag Ysgol Pendref yn Ninbych, Ysgol Penmorfa ym Mhrestatyn, Ysgol Christchurch yn y Rhyl ac Ysgol Bryn Collen yn Llangollen i ddarparu cyfleoedd chwarae agored ar dir ysgol.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol Christchurch a Chanolfan Plant Integredig y Dderwen yn y Rhyl i gynnal Diwrnod Chwarae Cenedlaethol bob blwyddyn ar y dydd Mercher cyntaf ym mis Awst, a daeth mwy na 3,000 o bobl i'r digwyddiad yn 2024.<br><br>Mae Ysgol Uwchradd Prestatyn yn darparu | gynnal gweithgareddau allgyrsiol.<br><br>Yn y grwpiau ffocws a gynhaliwyd mewn ysgolion, soniodd y plant hefyd yr hoffent gael mwy o sesiynau Ceidwaid Chwarae, boed hynny yn yr ysgol neu gerllaw ar ddiwedd y diwrnod ysgol. | Cyllid i helpu'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae i ehangu'r sesiynau agored ar ôl ysgol i fwy o ardaloedd fel y gall mwy o blant elwa ar gyfleoedd i chwarae ar dir ysgol neu gerllaw ar ddiwedd y diwrnod ysgol |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cyfleoedd i chwarae yn ystod gwyliau ysgol ar y cyd â'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae ac yn cydnabod mor bwysig yw bod plant yn eu harddegau'n chwarae. | | |
| **50** | Mae ysgolion yn darparu mynediad at dir ysgol ar gyfer chwarae y tu allan i oriau ysgol | **Oren** | **Oren** | Pennir hyn fesul ysgol unigol ac mae'n benderfyniad i'r ysgol a'r llywodraethwyr. Nid oes gan yr awdurdod lleol bolisi ar hyn.<br><br>Wrth gyflwyno cyllid Cyfalaf Ysgolion Bro, tynnwyd sylw ysgolion at gyfleoedd i annog plant i ddefnyddio tir ysgol y tu allan i oriau. Efallai y gwneir llai o hynny yn y dyfodol gan fod diben y grant wedi newid. | Yn y grwpiau ffocws a gynhaliwyd mewn ysgolion, soniodd y plant hefyd yr hoffent gael mwy o sesiynau Ceidwaid Chwarae, boed hynny yn yr ysgol neu gerllaw ar ddiwedd y diwrnod ysgol. | Bod y Rheolwr Datblygu Gofal Plant a Chwarae'n mynd i gynhadledd y Penaethiaid i amlygu mor bwysig yw chwarae a'r manteision i blant o ddarparu mynediad at dir ysgol. |

| **Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol** | **Meini prawf** | **Asesiad Blaenorol Statws COG*** | **Statws COG Cyfredol*** | **Tystiolaeth o gryfderau** | **Diffygion** | **Beth fyddai'n datrys y diffygion?** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **51** | Darperir cyfarwyddyd i sicrhau bod ysgolion yn deall na ddylid cyfyngu ar chwarae'n rheolaidd yn yr awyr agored ac yn sicrhau na wneir hynny | **Oren** | **Oren** | Atgoffir ysgolion mor bwysig yw chwarae'n rheolaidd yn yr awyr agored drwy eu gwaith Iechyd a Lles.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae wedi ymweld ag ysgolion i hyrwyddo pwysigrwydd chwarae a darparu sesiynau i'r holl blant, a'u hannog i gymryd rhan yn y sesiynau chwarae agored yn y Sir. Mae clystyrau ysgolion ac ysgolion arbennig hefyd wedi prynu amser staff er mwyn i'r Ceidwaid Chwarae ddarparu sesiynau chwarae cynhwysol ac wedi'u targedu ac ehangu amseroedd egwyl neilltuedig ar gyfer chwarae pwrpasol.<br><br>Mae ysgolion hefyd wedi comisiynu'r Rhaglen Ceidwaid Chwarae Bach i weithio â grwpiau o blant i ddatblygu eu timau Ceidwaid Chwarae eu hunain, a fyddai'n cael chwe mis o 'hyfforddiant' gan y Ceidwaid Chwarae i fedru dal i gynnal a hyrwyddo cyfleoedd chwarae amser egwyl a defnyddio'r storfeydd rhannau rhydd yn yr ysgolion a ariannwyd yn y gorffennol Grant Cyfleoedd | Arferai Hamdden Sir Ddinbych Cyf gynnig y wobr *Playmaker* i ddisgyblion blwyddyn 6 a'u haddysgu ynglŷn â'r sgiliau sylfaenol ar gyfer gweithgareddau chwarae, ond nid ydynt mwyach yn darparu hyn i'r ysgolion.<br><br>Oherwydd cwtogi ar gyllidebau ysgolion, nid | Cyllid refeniw i'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae gynnal y rhaglen Ceidwaid Chwarae Bach mewn ysgolion, fel y gall plant ddysgu sut i gynnal eu sesiynau chwarae eu hunain yn yr awyr agored. |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Chwaraeon Cymru Gyfan, ond daeth hynny i ben ym mis Gorffennaf 2024 oherwydd gwasgfeydd ar gyllidebau ysgolion. | ydynt yn prynu cymaint o wasanaethau chwarae i mewn, ac felly darparwyd llai o sesiynau chwarae cynhwysol mewn ysgolion.<br><br>Yn ôl yr hyn a ddywedodd plant yn y grwpiau ffocws mewn ysgolion, credant y gallai ysgolion ganiatáu | Cyllid i hyrwyddo pwysigrwydd amseroedd egwyl neilltuedig ar gyfer chwarae, ac arddangos y ddarpariaeth chwarae i staff ysgolion |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | iddynt chwarae mwy, cael amseroedd chwarae hwy a pheidio â cholli amser chwarae am gamymddwyn yn y dosbarth. Credant hefyd y dylai fod gan ysgolion fwy o adnoddau chwarae i wneud amser chwarae'n fwy o hwyl. | |
| **52** | Rhoddir ystyriaeth i bwysigrwydd chwarae | **Newydd ar gyfer 2025** | **Oren** | Tynnwyd sylw ysgolion at gyfleoedd drwy gyllid cyfalaf Ysgolion Bro i greu cyfleusterau gwell i'r gymuned leol a galluogi pobl i'w defnyddio'n helaethach y tu allan i oriau ysgol. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | wrth weithredu'r cynllun Ysgolion Bro yn lleol | | | | | |
| 53 | Rhoddir ystyriaeth i bwysigrwydd chwarae wrth weithredu'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn lleol | **Newydd ar gyfer 2025** | **Oren** | Mae'r drefn ar gyfer dylunio ysgolion newydd yn rhoi pwyslais ar yr amgylchedd dysgu cyfan, gan gynnwys cyfleoedd i chwarae. Fel rheol, cyflogir ymgynghorwyr arbenigol i gynorthwyo â hynny. | Efallai y gwneir llai o hynny yn y dyfodol gan fod diben y grant wedi newid. | |
| 54 | Mae'r polisïau Iechyd a Diogelwch yn cydnabod | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Cynghorir ysgolion i sicrhau y gwneir asesiad risg ar gyfer yr holl weithgareddau a drefnir. Y broblem yw bod gofyn i'r ysgolion wneud hynny eu hunain a bod dim adnoddau gennym i sicrhau eu bod yn dilyn ein holl gyngor. Gallwn ddweud ein bod yn | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | yn bendant mor werthfawr yw bod plant yn gallu cael profiad o risgiau a heriau | | | monitro sampl o ysgolion yn flynyddol at ddibenion rheoli diogelwch.<br><br>Mae Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae Sir Ddinbych yn gweithredu trefn Asesu Risgiau a Buddion ar gyfer yr holl sesiynau, gan sicrhau y caiff plant brofiadau o risgiau a heriau wrth chwarae'n ddiogel. Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant ynghylch y drefn Asesiadau Risg a Buddion Dynamig ac yn cael cefnogaeth gyson. | | |
| **55** | Mae'r polisïau a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch yn cynnwys asesu iechyd a diogelwch ar sail buddion-risgiau, yn unol ag argymhellion | **Oren** | **Oren** | Mae'r polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn bodloni gofynion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac os yw ysgolion yn dilyn cyfarwyddyd yr awdurdod lleol, byddant hwythau hefyd yn bodloni'r gofynion.<br><br>Mae Cyngor Sir Ddinbych yn monitro gweithdrefnau rheoli Iechyd a Diogelwch mewn sampl o ysgolion bob blwyddyn. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Asesiad Blaenorol Statws COG* | Statws COG Cyfredol* | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ISO, y Sefydliad Safoni Rhyngwladol. | | | | | |
| **56** | Mae'r awdurdod lleol yn cynnig darparu yswiriant drwy ei gynllun i'r holl ddarparwyr chwarae yn y trydydd sector a chynghorau cymuned | **Coch** | **Coch** | | Nid yw'r Awdurdod Lleol yn darparu'r gwasanaeth hwn. | |

**Lleoedd y mae plant yn chwarae: Sylwadau ychwanegol – C, Dd ac Ff**

Wrth gynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar gyfer 2025, sefydlodd y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae grwpiau ffocws mewn ysgolion Cynradd ledled Sir Ddinbych er mwyn clywed barn y plant ynglŷn â'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt chwarae, rhoi llais iddynt yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn Sir Ddinbych a meithrin ymdeimlad o berchnogaeth a gwerthfawrogiad.

Bydd y grwpiau ffocws yn dylanwadu ar y ffordd y gall y Tîm Chwarae a'r awdurdod lleol i oresgyn rhai o'r rhwystrau neu'u dileu drwy ddod o hyd i ffyrdd o roi eu syniadau ar waith.

Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n cydweithio'n effeithiol ag amryw adrannau a sefydliadau allanol a cheir tystiolaeth bod hynny'n fuddiol i'r cyfleoedd i chwarae yn Sir Ddinbych, gyda mwy na 20,000 o blant a phobl ifanc yn dod i'r sesiynau chwarae agored. Ceir cysylltiadau cryf ag ysgolion ledled Sir Ddinbych ac yn ôl yr hyn a ddywedodd y plant yn y grwpiau ffocws, croesewir mwy o sesiynau chwarae agored mewn ysgolion ac yn y cymunedau lleol.
Mae tîm Diogelwch y Ffyrdd a Theithio Llesol wedi creu cysylltiadau cryf â Heddlu Gogledd Cymru a grwpiau rhanbarthol eraill er mwyn sicrhau llwybrau mwy diogel i blant yn eu cymunedau, ac mae'n ystyriol o warchod mannau diogel i chwarae.

Mae cwtogi ar ffynonellau cyllid, yn enwedig i ysgolion, yn amlwg wedi cael effaith ar brofiadau chwarae plant mewn ysgolion. Nid oes gan ysgolion arian mwyach i brynu gwasanaethau fel y Ceidwaid Chwarae i ddarparu a modelu sesiynau chwarae ystyrlon yn ystod amser egwyl a dangos i staff ysgolion mor bwysig yw amser chwarae neilltuedig i blant, na chyllid i'w fuddsoddi yn y rhaglen Ceidwaid Chwarae Bach neu offer i wella a datblygu amseroedd chwarae yn ystod y diwrnod ysgol.

Er mwyn goresgyn yr her o brinder cyllid yn amharu ar brofiadau chwarae plant mewn ysgolion, mae angen arfer dull pwrpasol a dyfeisgar. Ceir amryw strategaethau a fedrai helpu i liniaru ar y problemau, gan gynnwys:

- Grymuso a hyfforddi staff presennol yr ysgolion
- Dangos sut i ddefnyddio adnoddau am ddim neu'n rhad, gan ddefnyddio'r pecyn gwaith darnau rhydd
- Datblygu cynlluniau dan arweiniad disgyblion fel y Ceidwaid Chwarae Bach – hyfforddi disgyblion i fod yn arweinwyr chwarae
- Annog ysgolion a sefydliadau i ymgeisio am grantiau a chyllid o wahanol ffynonellau
- Cynnwys mwy o weithgareddau chwarae yn y cwricwlwm ac amserlenni
- Darparu Cynlluniau Gweithredu Chwarae unigol i ysgolion

- Eirioli o blaid buddion chwarae ac addysgu cymuned yr ysgol a gwneuthurwyr polisïau lleol i greu ymwybyddiaeth gadarn o hynny.

- Camau gweithredu a ystyriwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu Chwarae – 24, 25, 33, 34, 43, 46, 48, 49, 50, 51
- Camau gweithredu a gytunwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu Chwarae – 24, 34, 48, 49, 51, 64
- Sail resymegol ar gyfer blaenoriaethu'r camau gweithredu - bydd y canlyniadau sy'n deillio o'r camau gweithredu y cytunwyd i roi blaenoriaeth iddynt yn y Cynllun Gweithredu Chwarae'n cyflawni'r rhan helaeth o'r canlyniadau arfaethedig eraill a fyddai wedi deillio o gamau gweithredu eraill a fu dan ystyriaeth. Er nad yw rhai o'r camau gweithredu a ystyriwyd wedi cael blaenoriaeth, y rheswm am hynny yw bod y rhain eisoes wedi'u blaenoriaethu mewn rhaglenni gwaith adrannau eraill a fydd yn eu cyflawni ar wahân. Rhoddir sylw'n bennaf i'r camau gweithredu a ddetholwyd yn y deuddeg mis nesaf, ond cedwir y camau gweithredu eraill a ystyriwyd dan adolygiad ac efallai y caiff y rheiny flaenoriaeth mewn cynlluniau gweithredu yn y dyfodol cyn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn 2028.

## Thema: Darpariaeth dan oruchwyliaeth

Mae a wnelo'r thema hon â:

**Mater Ch:** **Darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth**
**Mater E:** **Hyfforddiant Gwaith Chwarae a Datblygu'r Gweithlu**

**Meini Prawf Awdurdodau Lleol 57 i 77**

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **57** | Cadw cofnod cyfoes o'r holl ddarpariaeth gwaith chwarae dan oruchwyliaeth, fel y'i disgrifir yn y Canllawiau Statudol | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae'r Cydlynydd Chwarae Hygyrch yn monitro'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae ac yn adrodd ynghylch hynny i'r Rheolwr Gofal Plant a Datblygu Chwarae.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae hefyd yn darparu gwybodaeth fonitro i dîm integredig Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg ynglŷn â sesiynau chwarae agored a gynhelir mewn ardaloedd Dechrau'n Deg.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cadw cofnod o'r holl ddarparwyr cofrestredig. Nid yw'r Awdurdod Lleol yn meddu ar wybodaeth ynglŷn â darparwyr nad ydynt wedi cofrestru.<br><br>Anogir darparwyr i gofnodi eu manylion ar | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | wefan DEWIS Cymru.<br><br>Mae tîm Chwaraeon Cymunedol Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn hyrwyddo sesiynau ar ei wefan ac ar gyfryngau cymdeithasol, a chedwir cofnodion ar ein system *Upshot*.<br><br>Cynhelir sesiynau chwarae meddal Hamdden Sir Ddinbych yn Llangollen a Rhuthun.<br><br>Mae gan Ganolfan Nova ym Mhrestatyn ardal chwarae antur meddal bwrpasol. https://novaprestatyn.co.uk/adventure-play/<br><br>Mae gan SC2 yn y Rhyl Ninja TAG ac ardal chwarae antur meddal. https://sc2rhyl.co.uk/ninja-tag/ https://sc2rhyl.co.uk/adventureplay/ | | |
| **58** | Mae darpariaeth gwaith chwarae'r awdurdod lleol yn creu amgylchedd | **Oren** | **Gwyrdd** | Mae Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'r Awdurdod Lleol yn darparu sesiynau chwarae agored mewn amryw fannau ledled Sir Ddinbych, gan sicrhau y darperir amgylchedd chwarae cyfoethog bob amser.<br><br>Mae'r holl staff yn gwybod yn iawn sut i | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | chwarae cyfoethog, fel y'i disgrifir yn y Canllawiau Statudol | | | ddarparu amgylchedd chwarae cyfoethog ac yn ymwybodol o'r cwricwlwm gwaith chwarae a'r egwyddorion sy'n eu helpu i greu mannau chwarae pwrpasol.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae wedi'i leoli yng Nghanolfan Plant Integredig yr awdurdod lleol, sy'n cynnig sesiynau chwarae agored yn rhan o'i nodau craidd. Mae Canolfan Plant Integredig y Dderwen hefyd yn cynnig darpariaeth ardderchog a fforddiadwy ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau gyda thîm o Weithwyr Chwarae cymwys. Darperir amgylchedd chwarae cyfoethog, pwrpasol, helaeth a chynhwysol, gan gynnwys ysgol goedwig lle gall plant a phobl ifanc o bob oed a phob gallu gael mynediad at gyfleoedd chwarae ystyrlon a difyr.<br><br>Bu Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae Sir Ddinbych, Tîm Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Ysgol Gynradd Christchurch yn y Rhyl yn gweithio mewn partneriaeth i gynnal prosiect ar gyfer pobl ifanc 11+ yn y Rhyl, Penmaenmawr a Than Lan, Hen Golwyn. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Daeth mwy na 138 o bobl ifanc i'r sesiwn yn y Rhyl, gan gynnwys disgyblion dwy o ysgolion uwchradd a thair o ysgolion cynradd.<br><br>Cynhaliwyd y sesiynau yn y Rhyl ar y Cae Chwarae Amlddefnydd yng Nghanolfan Plant Integredig y Dderwen ac ar Gaeau Ysgol Christchurch,<br><br>Mae Hamdden Sir Ddinbych yn darparu sesiynau chwarae meddal a gynhelir yng nghanolfannau hamdden Llangollen a Rhuthun.<br><br>Mae gan Ganolfan Nova ym Mhrestatyn ardal chwarae antur meddal bwrpasol. https://novaprestatyn.co.uk/adventure-play/<br><br>Mae gan SC2 yn y Rhyl *Ninja TAG* ac ardal chwarae antur meddal.<br>https://sc2rhyl.co.uk/ninja-tag/<br>https://sc2rhyl.co.uk/adventureplay/<br><br>Mae Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn cynnal amrywiaeth o brosiectau a gweithgareddau gydol y | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | flwyddyn mewn amryw fannau ledled Sir Ddinbych er mwyn annog gweithgareddau awyr agored a chyswllt â theuluoedd [https://www.denbighshirecountryside.org.uk/sir-ddinbych-o-fewn-cyrraedd](https://www.denbighshirecountryside.org.uk/sir-ddinbych-o-fewn-cyrraedd) | | |
| **59** | Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod y partneriaid sy'n darparu gwaith chwarae'n cael cefnogaeth i gynnig amgylcheddau chwarae cyfoethog, fel y disgrifir yn y Canllawiau Statudol | **Oren** | **Oren** | Mae'r awdurdod yn gweithio'n agos â nifer o bartneriaid a sefydliadau allanol er mwyn eu cefnogi i ddarparu cyfleoedd chwarae yn Sir Ddinbych.<br><br>Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• Darparwyr Gofal Plant a Gwarchodwyr Plant<br>• Celfyddydau Sir Ddinbych<br>• Hamdden Sir Ddinbych Cyf<br>• Ysgolion a Gwasanaethau Addysg<br>• Tai Cymunedol<br>• Gemau Stryd<br>• Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Teuluoedd yn Gyntaf<br>• Dechrau'n Deg<br>• Heddlu Gogledd Cymru<br>• Chwarae Cymru<br>• Hwb Dinbych<br>• Partneriaeth Gymunedol De Sir | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ddinbych<br>• Busnesau lleol.<br><br>Derbyniodd yr holl ddarparwyr gofal plant a chwarae lawlyfr Rhannau Rhydd yn ystod y Gynhadledd Gofal Plant a Chwarae flynyddol a gynhaliwyd ym mis Hydref 2024, a luniwyd ar y cyd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'r Tîm Datblygu Gofal Plant a Chwarae. Mae'r llawlyfr yn rhoi'r adnoddau i ddarparwyr fedru cynnal archwiliad rhannau rhydd ac asesu buddion a risgiau ac mae'n cynnwys canllawiau ynglŷn â'r ffyrdd gorau o ddefnyddio'r rhannau rhydd a'r effaith y mae'r rhain yn ei gael ar ffrâm chwarae.<br><br>Cynhelir cyfarfodydd drwy Grŵp Rhwydwaith Sir Ddinbych, Fforwm Ieuenctid Prestatyn a'r Fforwm Gofal Plant a Chwarae i rannu gwybodaeth a galluogi darparwyr i gefnogi ei gilydd ar gyfer digwyddiadau a datblygiadau chwarae. Mae'r Tîm Ceidwaid Chwarae wedi cefnogi sefydliadau drwy fynd i ddigwyddiadau a drefnwyd gan y partneriaid i sicrhau y cynigir amgylcheddau chwarae cyfoethog a chyfleoedd pwrpasol i | Mynd i'r Fforwm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Rhwydwaith Gymunedol y Rhyl i gefnogi cymunedau lleol sydd angen mwy o gyfleoedd i chwarae | Cyllid i dalu staff i gynnal mwy o sesiynau agored mewn mwy o leoedd |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chwarae.<br><br>Mae Cyngor Cymuned Dyserth yn cyfrannu at ddarpariaeth chwarae agored yn ystod y tymor. Drwy hyn maent yn cydnabod anghenion y plant yn y gymuned. Gwelwyd enghraifft arall o hyn pan geisiodd y Cyngor Cymuned wastatáu rampiau/neidfeydd beics yr oedd plant lleol wedi'u creu, a methu. Fe gododd y plant y neidfeydd drachefn fore trannoeth. Wedi cael sgwrs â'r Cydlynydd Chwarae Hygyrch ac egluro bod angen amgylchedd chwarae cyfoethog a bod buddion yr hyn yr oedd y plant yn ei wneud yn drech na'r risgiau, penderfynodd y cynghorwyr tref ganiatáu i'r plant ddal i greu'r rampiau hyn a'u defnyddio fel amgylchedd chwarae, sy'n rhoi ymdeimlad o berchnogaeth iddynt yn eu cymuned leol. Cafodd hyn effaith gymdeithasol fawr ar y gymuned leol wrth i fwy o blant ddechrau defnyddio'r neidfeydd. | | |
| **60** | Mae'r ddarpariaeth gwaith | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae'r ddarpariaeth yng Nghanolfan Plant Integredig y Dderwen wedi ei gofrestru a'i reoleiddio'n llawn gan AGC (Arolygiaeth | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | chwarae â staff y mae'r awdurdod lleol yn ei ddarparu'n bodloni'r gofynion rheoleiddio a Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal plant i blant hyd at 12 oed | | | Gofal Cymru).<br><br>Mae staff Canolfan Plant Integredig y Dderwen yn meddu ar gymwysterau lefel uchel ac mae'r holl arweinwyr yn cyflawni'r gofynion diwygiedig ar gyfer cymwysterau gwaith chwarae yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2024.<br><br>Mae'r gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n cynnal sesiynau chwarae agored mewn amryw fannau ledled y sir. Cynigir cyfleoedd helaeth i chwarae yn y sesiynau hynny ac mae'r gwasanaeth yn gweithio â chydweithwyr a sefydliadau allanol i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo pwysigrwydd chwarae yn y cymunedau dan sylw. Er nad oes unrhyw gynlluniau chwarae cofrestredig ar waith yn ystod gwyliau ysgol yn Sir Ddinbych, mae staff y Tîm Datblygu Gofal Plant a Chwarae wedi cael hyfforddiant lefel 3 mewn Rheoli Cynlluniau Chwarae Gwyliau.<br><br>Mae'r Rheolwr Datblygu Gofal Plant a Chwarae'n darparu cefnogaeth ac arweiniad | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | i ddarparwyr gofal plant a chwarae fodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu rhaglen hyfforddiant helaeth â chymhorthdal i ddarparwyr gofal plant a chwarae er mwyn iddynt fodloni gofynion rheoleiddio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. | | |
| **61** | Mae'r ddarpariaeth gwaith chwarae â staff y mae'r awdurdod lleol yn ei hariannu'n bodloni'r gofynion rheoleiddio a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol | **Oren** | **Gwyrdd** | Mae Canolfan Plant Integredig y Dderwen a *Little Acorns* yn Ysgol Crist y Gair, sy'n ddarparwyr y mae'r awdurdod lleol yn eu cynnal, yn rhagori ar y gofynion rheoleiddio a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a chafwyd tystiolaeth o hynny yn yr arolygiadau diweddaraf gan AGC ac Estyn a roes y farn bod y ddarpariaeth yn Rhagorol.<br><br>Er nad yw'r Tîm Ceidwaid Chwarae wedi cofrestru ag AGC fel darpariaeth chwarae, fe'i gweithredir yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn sicrhau y cynigir darpariaeth chwarae o'r radd flaenaf i gynnal safonau uchel. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **62** | Mae'r ddarpariaeth gwaith chwarae â staff y mae'r awdurdod lleol yn ei hariannu'n bodloni'r gofynion rheoleiddio a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol | **Oren** | **Oren** | Er nad yw partneriaid yn cynnig unrhyw ddarpariaeth gofal plant gofrestredig yn allanol, ac eithrio darparwyr gofal plant, rhoddir cefnogaeth iddynt i'w helpu i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Nid oes gan yr awdurdod lleol reolaeth uniongyrchol dros sicrhau eu bod yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ond mae'n rhoi cefnogaeth os amlygir unrhyw ddiffygion yn arolygiadau AGC. | | |
| **63** | Rhoddir cefnogaeth i ddarpariaethau gwaith chwarae â staff nad ydynt wedi cofrestru dan y Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd er mwyn | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n cynnig yr hyfforddiant Gwaith Chwarae perthnasol i'r holl staff. Mae saith o aelodau o staff yn meddu ar gymwysterau Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae, tri o aelodau o staff yn gweithio at gyflawni cymwysterau Gwaith Chwarae Lefel 3 a dau o aelodau o staff yn meddu ar gymwysterau Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae a Rheoli Cynlluniau Chwarae Gwyliau.<br><br>Sefydlwyd trefn recriwtio diogel i sicrhau bod | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | sicrhau bod y staff yn addas a bod cyfleoedd da i blant chwarae. | | | yr holl staff yn addas cyn iddynt ddechrau gweithio ac mae hynny'n cynnwys trefn drylwyr ar gyfer ymgeisio a chyfweld, gwirio geirdaon, gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac adolygu cyfnodau prawf.<br><br>Mae'r holl staff wedi cael gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn cael gwiriadau o'r newydd ar yr adegau priodol. Darperir hyfforddiant a chwrs sefydlu i staff a chaiff Datblygiad Proffesiynol Parhaus ei gynnig a'i hyrwyddo bob amser. Bydd yr holl staff yn cael hyfforddiant diogelu grŵp B ac mae'r Rheolwr Datblygu Gofal Plant a Chwarae'n meddu ar gymhwyster grŵp C fel Swyddog Diogelu Arweiniol Dynodedig.<br><br>Mae'r holl staff yn cael gwybod am bolisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn ystod yr hyfforddiant sefydlu. Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig Brys a Chymorth Cyntaf yn y Gwaith.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Deuluoedd yn darparu rhaglen hyfforddiant helaeth â chymhorthdal i ddarparwyr gofal plant a chwarae er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Darperir cymhorthdal llawn ar gyfer hyfforddiant Diogelu, Cymorth Cyntaf Pediatrig Brys a Chymorth Cyntaf yn y Gwaith yn ogystal â hyfforddiant Hylendid Bwyd Lefel 2, i helpu'r darparwyr i fod yn gynaliadwy.<br><br>Mae Hamdden Sir Ddinbych, drwy ei Grŵp Diogelu, yn cynnal Archwiliad Diogelu i sicrhau fod pob clwb a chymdeithas sy'n gweithredu ar eu safleoedd yn meddu ar gymwysterau priodol, yn cydymffurfio â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn dal y polisïau yswiriant perthnasol. Mae'n rhaid darparu'r wybodaeth hon cyn gallu cadarnhau unrhyw archeb. Cynhelir hapwiriadau o'r clybiau a chymdeithasau hyn hefyd.<br><br>Mae holl staff perthnasol Hamdden Sir Ddinbych Cyf wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac mae'r Grŵp Recriwtio Mwy Diogel yn monitro | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hynny. | | |
| **64** | Mae'r ddarpariaeth gwaith chwarae â staff gydol yr awdurdod lleol yn gweithio'n unol â rhaglen sicrhau ansawdd gydnabyddedig | **Oren** | **Oren** | Gwneir ymdrech i annog yr holl ddarparwyr gofal plant a chwarae yn Sir Ddinbych i ddilyn Fframwaith Ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a gaiff ei ategu gan dimau Addysg Gynnar a Dechrau'n Deg yr awdurdod lleol.<br><br>Mae sefydliadau CWLWM yn annog aelodau i gymryd rhan yng nghynllun sicrhau ansawdd un o bartneriaid CWLWM er mwyn cynorthwyo darparwyr i hunanasesu a llunio cynlluniau gwella, a dangos i ddefnyddwyr y gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol bod y darparwr â'r nod o ragori ar Safonau Gofynnol Cenedlaethol AGC.<br><br>Mae gan y tîm Ceidwaid Chwarae a'r Ganolfan Plant Integredig staff sydd wedi'u hyfforddi i gynnal Ysgol Goedwig a darparu gweithgareddau Ysgol Goedwig mewn sesiynau ac yn y Ganolfan Plant Integredig. | Bod y tîm Ceidwaid Chwarae'n sicrhau marc ansawdd Chwarae Cymru, 'Chwarae o Safon' | Meithrin cyswllt â Chwarae Cymru i fod yn rhan o'r cynllun peilot ar gyfer y marc ansawdd. |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Gwasanaethau Ieuenctid yn gweithio i sicrhau Marc Ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: lefel Efydd. | | |
| **65** | Aseswyd y darparwyr a fu dan sylw yn yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn ôl ansawdd y cyfleoedd chwarae maent yn eu darparu a'u cynnig | **Newydd ar gyfer 2025** | **Gwyrdd** | Arolygir yr holl leoliadau gofal plant cofrestredig yn rheolaidd gan AGC, sy'n asesu ansawdd y cyfleoedd chwarae y mae'r lleoliadau'n eu darparu a'u cynnig. Os argymhellir newidiadau yn sgil yr arolygiad neu os gyflwynir unrhyw Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth, bydd y Rheolwr Datblygu Gofal Plant a Chwarae'n gweithio â'r lleoliad i'w helpu i ddatrys unrhyw broblemau a'u cefnogi i sicrhau cyllid i fynd i'r afael â phroblemau os oes angen, a gweithio ag unrhyw rai o wasanaethau eraill yr awdurdod a allai fod yn gweithio â'r lleoliad i sicrhau y codir safonau.<br><br>Mae'r tîm Addysg Gynnar a Dechrau'n Deg yn cynnal ymweliadau cymorth yn rheolaidd ac yn mynegi barn yn gyson ynghylch ansawdd y cyfleoedd chwarae a gynigir ymhob lleoliad. Byddant hefyd yn cynorthwyo â'r gwaith cynllunio ar gyfer | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cwricwlwm Cymru ac yn rhoi syniadau am ffyrdd o wella'r amgylchedd chwarae eto, dan do ac yn yr awyr agored. Cynhelir asesiadau blynyddol a rhoddir sgôr i bob lleoliad, sy'n sail ar gyfer unrhyw gynllun gweithredu sydd ei angen i wella ansawdd y ddarpariaeth. | | |
| **66** | Mae cynlluniau'r awdurdod lleol ar gyfrer chwaraeon, gweithgarwch corfforol a hamdden egnïol yn cyfrannu at gynyddu mynediad at weithgareddau chwarae a hamdden. | **Oren** | **Gwyrdd** | Mae'r tîm Ceidwaid Chwarae'n darparu gweithgareddau corfforol a chwaraeon fel rhan sefydlog o'u sesiynau chwarae agored.<br><br>Mae'r tîm Ceidwaid Chwarae a Thimau Chwaraeon Cymunedol Hamdden Sir Ddinbych yn cynnal y rhaglen Bwyd a Hwyl i hybu maeth yn ystod tair wythnos gyntaf gwyliau'r haf a chynhelir hynny yn yr ysgolion.<br><br>Comisiynodd Ysgol Uwchradd Prestatyn y tîm Ceidwaid Chwarae i gynnal y cynllun Ffit, Bwydo, Hwyl am dair wythnos yn ystod gwyliau haf 2024 a darparwyd amrywiaeth helaeth o weithgareddau chwarae a chwaraeon.<br><br>Mae'r tîm Ceidwaid Chwarae'n cydlynu'r | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Diwrnod Chwarae Cenedlaethol bob blwyddyn ar ddydd Mercher cyntaf mis Awst a chynhelir y digwyddiad ar Gae Chwarae Christchurch yng Nghanolfan Plant Integredig y Dderwen yn y Rhyl. Cydweithio â nifer o bartneriaid a sefydliadau i ddarparu amrywiaeth helaeth o weithgareddau chwarae am ddim. Daeth 3,000 o bobl i'r digwyddiad yn 2024, yr un prysuraf ers cynnal yr un cyntaf yn Sir Ddinbych yn 2015.<br><br>Mae tîm Chwaraeon Cymunedol Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae, Grwpiau Ieuenctid a grwpiau cymunedol eraill i ddarparu:<br><br>• Sesiynau Hwyl i Deuluoedd yn y cymunedau lleol<br>• Sesiynau Beicwyr Bach<br>• Sesiynau aml-chwaraeon<br>• Teithiau cerdded lles. | | |
| **67** | Mae'r agenda chwaraeon yn cyfrannu at ddarparu | **Oren** | **Oren** | Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn cynnig amrywiaeth helaeth o weithgareddau i blant yn y gymuned ac yn y canolfannau hamdden. Mae'r gweithgareddau a gynhelir | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | digon o gyfleoedd hamdden i blant | | | mewn Canolfannau Hamdden yn cynnwys:<br>• Chwarae meddal<br>• Nofio<br>• Dringo<br>• Bowldro<br>• iGemau<br>• Ffitrwydd ieuenctid.<br><br>Mae'r gweithgareddau yn y gymuned yn cynnwys:<br>• Digwyddiadau hwyl i deuluoedd<br>• Sesiynau beicwyr bach<br>• Sesiynau aml-chwaraeon.<br><br>Mae nifer o glybiau a sefydliadau chwaraeon hefyd yn cynnal eu gweithgareddau yn y canolfannau hamdden ac yn defnyddio cyfleusterau a chaeau chwaraeon lleol. | | |
| **68** | Mae'r agenda diwylliant a chelfyddydau'n cyfrannu at ddarparu digon o gyfleoedd | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae gwasanaeth Celfyddydau Cymunedol Hamdden Sir Ddinbych Cyf wedi darparu'r prosiectau canlynol:<br>• Darpariaeth gelfyddydol yn ystod y Diwrnodau Hwyl Cymunedau Bywiog a drefnir i deuluoedd yn ystod gwyliau | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | hamdden i blant | | | ysgol ledled y sir.<br>• Gweithdai celf yn llyfrgelloedd Cyngor Sir Ddinbych yn ystod gwyliau ysgol.<br>• Prosiect creadigol yn pontio'r cenedlaethau mewn ysgol yn Sir Ddinbych, gan fynd ati bob tymor i greu cysylltiadau â chartrefi gofal ac/neu ysbytai cymunedol.<br>• Darparu gweithgareddau creadigol i bobl ifanc wedi'u hadleoli, mewn partneriaeth â Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol Cyngor Sir Ddinbych a gweithio â theuluoedd wedi'u hadleoli â Thîm Adleoli Cyngor Sir Ddinbych.<br>• Darparu cyfres o brosiectau cerddoriaeth i blant meithrin gyda'r Gwasanaeth Bookstart.<br>• Darparu cyfleoedd creadigol i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol mewn partneriaeth â STAND.<br>• Arbrofi â dau o brosiectau lles mewn dwy o ysgolion uwchradd yn Sir Ddinbych, gan weithio â'u timau lles. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Cynorthwyo Gweithdy Dinbych i ddarparu cyfleoedd drama i bobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.<br>• Darparu cyfle creadigol i bobl ifanc sy'n derbyn cymorth gan elusen canser Joshua Tree. | | |
| **69** | Mae Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod Lleol yn darparu cyfleoedd i hamdden a chymdeithasu i blant | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc 11-25 oed gymryd rhan mewn darpariaeth Gwaith Ieuenctid ledled y sir.<br><br>Mae hynny'n cynnwys tîm gwledig sy'n gwneud gwaith ieuenctid mewn ardaloedd bach, anos eu cyrraedd.<br>Gweithio'n agos ag adrannau eraill a phartneriaid i sicrhau fod amryw gyfleoedd cynhwysol ar gael.<br>Gwnawn hyn drwy weithgareddau agored cyffredinol, gwaith wedi'i dargedu a threfnu darpariaeth yn ystod yr haf. | | |
| **70** | Cefnogir y gweithlu gwaith chwarae | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu rhaglen hyfforddiant helaeth â chymhorthdal i ddarparwyr gofal plant a chwarae er mwyn sicrhau eu bod yn | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | mewn lleoliadau a reoleiddir i gyflawni'r cymwysterau angenrheidiol yn ôl y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant wedi'i reoleiddio i blant hyd at 12 oed. | | | cydymffurfio â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Darperir cymhorthdal llawn ar gyfer hyfforddiant Diogelu, Cymorth Cyntaf Pediatrig Brys a Chymorth Cyntaf yn y Gwaith yn ogystal â hyfforddiant Hylendid Bwyd Lefel 2, i helpu'r darparwyr i fod yn gynaliadwy.<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol wedi gweld fod yno ddigon o hyfforddiant ar gael gan ddarparwyr yn y rhanbarth i sicrhau bod gan bob lleoliad weithiwr chwarae â'r cymwysterau perthnasol.<br><br>Mae Clybiau Plant Cymru'n cynnig amrywiaeth helaeth o hyfforddiant i gynorthwyo darparwyr i gyflawni'r cymwysterau gofynnol, gan gynnwys:<br><br>• Hyfforddiant Gwaith Chwarae wedi'i ariannu'n llawn. Mae'r dewisiadau'n amrywio o Ddyfarniad Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae drwy'r Rhaglen Hyfforddiant a Chefnogaeth i'r Diploma Uwch Lefel 5 a gynigir drwy brentisiaethau.<br>• Diplomâu Lefel 2, 3 a 5 mewn Gwaith | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Chwarae drwy'r cynllun Prentisiaethau.<br>• Mae Clybiau Plant Cymru'n darparu hyfforddiant Gwaith Chwarae drwy'r prosiect CYMell, i gynorthwyo â chofrestru ag AGC ac ehangu Clybiau Gofal Plant Cymraeg y Tu Allan i'r Ysgol. Cynigir bwrsariaeth i leoliadau cymwys sydd wedi cofrestru ag AGC, neu sy'n ymrwymo i wneud, i'w helpu i dalu'r costau ychwanegol ar gyfer hyfforddi staff. Gall dysgwyr sy'n dymuno gwneud eu hyfforddiant yn Gymraeg lenwi ffurflen Datgan Diddordeb CYMell. | | |
| **71** | Mae gan y gweithlu gwaith chwarae mewn lleoliadau heb eu cofrestru fynediad at hyfforddiant a chymwysterau | **Newydd ar gyfer 2025** | **Gwyrdd** | Mae'r awdurdod lleol yn rhoi'r un cyfleoedd i ddarparwyr gwaith chwarae gael hyfforddiant a chymwysterau mewn gwaith chwarae, boed y rheiny wedi cofrestru neu beidio. Gwneir hynny er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn annog cysondeb a chydymffurfiaeth â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ymhob agwedd ar unrhyw ddarpariaeth.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | mewn gwaith chwarae | | | Deuluoedd yn darparu rhaglen hyfforddiant i ddarparwyr gofal plant a chwarae er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Darperir cymhorthdal llawn ar gyfer hyfforddiant Diogelu, Cymorth Cyntaf Pediatrig Brys a Chymorth Cyntaf yn y Gwaith yn ogystal â hyfforddiant Hylendid Bwyd Lefel 2, i helpu'r darparwyr i fod yn gynaliadwy. | | |
| **72** | Mae'r awdurdod lleol wedi neilltuo cyllideb yn benodol ar gyfer datblygu staff chwarae, gan gynnwys gwaith chwarae | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd gyllideb hyfforddiant sy'n rhan o'r elfen Hyfforddiant a Chefnogaeth o'r Grant Plant a Chymunedau a ddarperir i'r sector gofal plant a chwarae'n unig. | | |
| **73** | Ceir amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd Datblygiad | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cynnal rhaglen hyfforddiant flynyddol a gynigir i'r holl ddarparwyr cofrestredig yn ardal yr awdurdod lleol. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Proffesiynol Parhaus i weithwyr chwarae yn yr ardal | | | Mae Chwarae Cymru'n cynnal sesiynau hyfforddiant a gweminarau'n gyson ac mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, y tîm Datblygu Gofal Plant a'r tîm Ceidwaid Chwarae'n gwneud ymdrech i hyrwyddo'r rheiny er mwyn cefnogi'r sector a hybu sgiliau.<br><br>Mae'r tîm Cyn Ysgol y Gwasanaeth Iechyd yn darparu rhaglen hyfforddiant amrywiol i leoliadau meithrin ac ysgolion mewn meysydd fel dysgu yn yr awyr agored ac ysgolion coedwig.<br><br>Mae Clybiau Plant Cymru'n darparu amrywiaeth helaeth o hyfforddiant i hybu gwybodaeth yn y sector.<br><br>Mae Dechrau'n Deg wedi darparu hyfforddiant Ysgol ar y Traeth i leoliadau. | | |
| **74** | Mae gwaith chwarae'n rhan o strategaethau lleol i | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae gwaith chwarae'n rhan o'r strategaethau i ddatblygu'r gweithlu yn ogystal â rhaglenni hyfforddiant y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'r Blynyddoedd Cynnar. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ddatblygu'r Gweithlu | | | Mae'r Awdurdod Lleol yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, sy'n cyflogi Cysylltydd Gyrfaoedd Gofal i gefnogi a hyrwyddo gweithlu Gofalwn Cymru. Mae'r swyddog yn cydweithio'n agos â cholegau lleol a Gofalwn Cymru ac yn gwneud ymdrech i gefnogi a hyrwyddo unrhyw swyddi gwag yn y sector Gofal a Chwarae. | | |
| **75** | Mae cynlluniau i gefnogi teuluoedd yn darparu gwybodaeth gyfoes a chefnogaeth i rieni fel y gallant annog eu plant i chwarae | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae'r Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd yn annog teuluoedd i gael mynediad at gyfleoedd chwarae yn y sir drwy rannu gwybodaeth amserol am yr holl wasanaethau a sesiynau chwarae sydd ar gael yn y sir yn ystod y tymor a'r gwyliau.<br><br>Mae gan y Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu sy'n sicrhau bod holl staff a gwasanaethau integredig Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn gwybod am yr holl gyfleoedd chwarae sydd ar gael yn Sir Ddinbych drwy gyfrwng newyddlen fewnol i'r tîm, a rhennir gwybodaeth â theuluoedd drwy gyfryngau cymdeithasol. Rhennir syniadau a gweithgareddau chwarae yn ystod gwyliau | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hefyd, ar gyfryngau cymdeithasol a gyda holl dimau gwasanaeth integredig Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.<br><br>Mae tîm datblygiad iaith cynnar Dechrau'n Deg yn cynnal sesiynau ysgol goedwig ac ysgol ar y traeth yn ystod y gwyliau a'r tymor.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd hefyd yn argymell, hyrwyddo a chynnig syniadau a gweithgareddau chwarae mewn sesiynau Aros a Chwarae yn y Rhyl a Dinbych, Bwydo Babanod a'r grwpiau Blynyddoedd Cynnar a Meithrin a gynhelir â theuluoedd.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth Ceidwaid Chwarae ac yn cymryd rhan yn y Diwrnod Chwarae Cenedlaethol bob blwyddyn.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd yn hyrwyddo chwarae mewn sesiynau un i un yng nghartrefi pobl ac yn arddangos sgiliau chwarae, sut i gefnogi plant wrth chwarae a | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chwarae rolau.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cyfeirio teuluoedd at gyfleoedd chwarae ledled Sir Ddinbych ac yn rhoi cyngor a chefnogaeth iddynt gael mynediad atynt. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn rhannu sesiynau a gweithgareddau chwarae â'r holl ddarparwyr gofal plant a chwarae a gyda theuluoedd drwy gyfryngau cymdeithasol. | | |
| **76** | Wrth weithredu'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn lleol, cydnabyddir mor bwysig yw chwarae a gwneir cyfraniad at ddarparu cyfleoedd i chwarae | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod mor bwysig yw chwarae fel un o hawliau plant a'r buddion sylweddol y mae hynny'n ei gael ar eu datblygiad cymdeithasol a gwybyddol a'u lles. Mae Teuluoedd yn Gyntaf a'r gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n ariannu gwasanaeth chwarae hygyrch ar y cyd, gan gynnwys staff ychwanegol i alluogi plant ag anghenion ychwanegol i gymryd rhan mewn sesiynau chwarae agored, chwarae yn y gymuned a gweithgareddau allgyrsiol.<br><br>Mae rhaglen Gwasanaeth Integredig Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg Sir Ddinbych yn cydnabod mor bwysig a buddiol yw bod plant yn chwarae, a gwelir | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hynny yn ein hymrwymiad hirsefydlog i'r Gweithgareddau Gwyliau a gwasanaethau Chwarae i Blant Anabl.<br><br>Mae chwarae'n elfen allweddol o lawer iawn o'n gwasanaethau ac ymyriadau, gan gynnwys grwpiau magu plant fel yr Academi Nofio, sesiynau, Ysgol ar y Traeth ac Ysgol Goedwig. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnal Diwrnodau Hwyl i Deuluoedd yn rheolaidd yn ystod gwyliau ysgol.<br><br>Mae gan Deuluoedd yn Gyntaf a'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar y gweill a fydd eto'n atgyfnerthu a hyrwyddo cyfleoedd chwarae i'r plant hynny sydd eu hangen fwyaf. | | |
| **77** | Mae cynlluniau a gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg yn cydnabod mor bwysig yw chwarae ac yn | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Fel yn 76 uchod.<br><br>Mae'r holl leoliadau Addysg Gynnar a ariennir yn dilyn Cwricwlwm Cymru – cwricwlwm i leoliadau meithrin nas cynhelir sy'n rhoi pwyslais ar ddysgu drwy brofiadau wrth chwarae.<br><br>Mae'r holl ddarparwyr Addysg Gynnar a ariennir yn cael cyfleoedd hyfforddiant i | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | cyfrannu at ddarparu cyfleoedd cyfoethog i blant iau chwarae | | | hybu dulliau effeithiol o Chwarae yn yr Awyr Agored.<br><br>Mae'r holl ddarparwyr Addysg Gynnar a ariennir wedi cael adnoddau ar gyfer rhannau rhydd/adnoddau naturiol.<br><br>Anogir yr holl ddarparwyr Addysg Gynnar a ariennir i ddefnyddio eu mannau chwarae cymunedol lleol fel arfer dda.<br><br>Darparwyd cyllid i'r holl leoliadau Addysg Gynnar a ariennir i ymweld â lleoliadau eraill er mwyn rhannu arferion ardderchog gan ganolbwyntio ar chwarae mentrus/yn yr awyr agored.<br><br>Mae rhaglen Gwasanaeth Integredig Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg Sir Ddinbych yn cydnabod mor bwysig a buddiol yw bod plant yn chwarae, a gwelir hynny yn ein hymrwymiad hirsefydlog i'r Gweithgareddau Gwyliau a gwasanaethau Chwarae i Blant Anabl.<br><br>Mae chwarae'n elfen allweddol o lawer iawn o'n gwasanaethau ac ymyriadau, gan | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gynnwys grwpiau magu plant fel yr Academi Nofio, sesiynau, Ysgol ar y Traeth ac Ysgol Goedwig. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnal Diwrnodau Hwyl i Deuluoedd yn rheolaidd yn ystod gwyliau ysgol.<br><br>Lle bo modd, mae holl gynlluniau'r swyddogion ar gyfer sesiynau a darpariaeth un i hyn yn cydnabod a gwerthfawrogi mor bwysig yw chwarae ac maent yn dal i wneud ymdrech i ddarparu cyfleoedd chwarae cyfoethog i blant, gan gynnwys y rheiny mewn grwpiau demograffig anos eu cyrraedd neu rai sy'n wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau gan eu bod yn byw yng nghefn gwlad.<br><br>Mae Dechrau'n Deg yn cynnal sesiynau 'Aros a Chwarae' ac mae'r tîm Datblygiad Iaith Gynnar yn gweithio'n agos â theuluoedd ifanc ar yr aelwyd er mwyn hyrwyddo chwarae rhyngweithiol rhwng rhieni a phlant i hybu datblygiad iaith.<br><br>Mae'r tîm gofal plant yn ymweld â lleoliadau Dechrau'n Deg yn gyson i roi cyngor a chefnogaeth er mwyn sicrhau darpariaeth chwarae o'r radd flaenaf. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol | Statws COG Cyfredol | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Anogir yr holl ddarparwyr i ymgeisio am grantiau cyfalaf bach i wella adnoddau a phrofiadau chwarae.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu rhaglen hyfforddiant flynyddol â chymhorthdal i Ddarparwyr Gofal Plant a Chwarae ac fe'i datblygir ar y cyd â Dechrau'n Deg ac Addysg Gynnar er mwyn symleiddio'r drefn hyfforddi, osgoi dyblygu gwaith a rhoi llai o bwysau ar ddarparwyr i ryddhau staff i wneud yr hyfforddiant. Mae'r rhaglen hyfforddiant yn cynnwys y cymwysterau a bennir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn bodloni'r gofynion gwaith chwarae a hyfforddiant Datblygu Proffesiynol Parhaus sy'n pwysleisio mor bwysig yw darparu cyfleoedd chwarae ystyrlon mewn lleoliadau a sicrhau bod y staff yn deall mor bwysig yw bod plant yn chwarae'n gynnar yn eu bywydau ac yn gwybod sut i adnabod a darparu cyfleoedd i wneud hynny. | | |

**Darpariaeth dan oruchwyliaeth: Sylwadau ychwanegol - Ch ac E**

Y Rheolwr Datblygu Gofal Plant a Chwarae yw Swyddog Arweiniol Dynodedig yr awdurdod ar gyfer Gofal Plant a'r Swyddog Chwarae Arweiniol, ac mae'n rheoli pob agwedd ar bolisïau gofal plant, polisïau chwarae, digonolrwydd gofal plant a digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn Sir Ddinbych.

Y Rheolwr Datblygu Gofal Plant a Chwarae yw'r Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, y Tîm Datblygu Gofal Plant, y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae, y Ganolfan Plant Integredig a'r Unigolyn Cyfrifol ar gyfer lleoliadau gofal plant sydd wedi cofrestru ag AGC – *Little Acorns* yng Nghanolfan y Dderwen ac Ysgol Crist y Gair a'r Cynnig Gofal Plant yng Nghymru.

Mae'r Rheolwr Datblygu Gofal Plant a Chwarae'n gweithio'n agos â chydweithwyr a sefydliadau allanol fel colegau, darparwyr hyfforddiant a sefydliadau CWLWM er mwyn sicrhau fod yno ddigon o gyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gael i atgyfnerthu a gwella'r sector chwarae. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr â chymhorthdal bob blwyddyn i helpu i hybu sgiliau'r gweithlu yn y sector a chyfrannu at gynaladwyedd drwy dalu costau hyfforddiant – gan sicrhau bod y sector yn cydymffurfio â'r holl bolisïau perthnasol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Bu'r Rheolwr Datblygu Gofal Plant a Chwarae'n rhan o'r gweithgor gyda Llywodraeth Cymru ac AGC a fu'n adolygu a diwygio'r gofynion hyfforddiant dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol cyn y daeth y rhai newydd i rym ym mis Tachwedd 2024 – gan gyfrannu profiadau ymarferol a gwybodaeth o'r rheng flaen i hybu effeithiolrwydd yr adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r effaith y câi hynny ar wasanaethau ar lawr gwlad.

Mae'r Cydlynydd Chwarae Hygyrch sy'n arwain y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae wedi gwneud yr hyfforddiant Darparu Hyfforddiant Gwaith Chwarae Deinamig a bydd yn gallu darparu mwy o gefnogaeth yn lleol wrth hyfforddi mwy o staff i gyflawni cymwysterau mewn Ymarfer Gwaith Chwarae.

- Camau gweithredu a ystyriwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu Chwarae – 59
- Camau gweithredu a gytunwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu Chwarae – 64

| |
|---|
| Sail resymegol ar gyfer blaenoriaethu'r camau gweithredu – y sail ar gyfer blaenoriaethu cam gweithredu 64 yn yr adran hon oedd bod cam gweithredu 59 eisoes wedi'i flaenoriaethu yn y ddwy adran flaenorol ac y bydd hynny'n datrys y diffyg. |

## Thema: Synergedd polisi, ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth

Mae a wnelo'r thema hon â:

**Mater Dd:** **Mesurau a ddefnyddir i hyrwyddo mynediad i chwarae, yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau**
**Mater E:** **Cyfleoedd hyfforddi ar gyfer y gweithlu chwarae**
**Mater F:** **Lefel ymgysylltu â'r gymuned a chyfranogiad**
**Mater Ff:** **Y graddau y mae polisïau eraill Awdurdod Lleol yn ystyried yr angen i wella cyfleoedd chwarae i blant**

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **78** | Mae yno adran neilltuol ar wefan yr Awdurdod Lleol sy'n rhoi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae fel y'u disgrifir yn y Canllawiau Statudol (mannau chwarae, darpariaeth chwarae, clybiau a'u hygyrchedd) | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Ceir adran neilltuol o wefan Cyngor Sir Ddinbych lle gall pobl ddod o hyd i feysydd chwarae. https://www.denbighshire.gov.uk/cy/hamdden-a-thwristiaeth/meysydd-chwarae/meysydd-chwarae.aspx<br><br>Mae gan Wasanaeth Ceidwaid Chwarae Sir Ddinbych ei we-dudalen benodol ei hun ar wefan yr Awdurdod Lleol. Mae'r dudalen honno'n cynnwys yr holl wybodaeth am y sesiynau chwarae agored ac mae staff y Gwasanaeth a thîm y we'n cadw'r wybodaeth yn gyfoes. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â thîm y we i sicrhau bod y wefan yn dal yn berthnasol ac yn gyfoes. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gall rhieni weld amserlenni ar gyfer yr holl sesiynau a rhoi enwau eu plant i lawr i gymryd rhan mewn sesiynau chwarae. Symleiddiwyd y drefn ar sail sylwadau gan rieni er mwyn annog mwy o bobl i ddod i sesiynau'n amlach, gan greu mwy o gyfleoedd i chwarae. Gall rhieni bellach gofrestru eu plant â'r gwasanaeth ac ar ôl gwneud hynny gallant fynd i unrhyw rai o'r sesiynau agored ledled y sir. https://www.denbighshire.gov.uk/cy/hamdden-a-thwristiaeth/gwasanaeth-ceidwad-chwarae/gwasanaeth-ceidwad-chwarae.aspx | | |
| **79** | Gwybodaeth am fynediad at gyfleoedd i chwarae a manylion cyswllt i gael cefnogaeth os oes angen | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae gan Wasanaeth Ceidwaid Chwarae Sir Ddinbych ei we-dudalen benodol ei hun ar wefan yr Awdurdod Lleol. Mae'r dudalen honno'n cynnwys yr holl wybodaeth am y sesiynau chwarae agored ac mae staff y Gwasanaeth a thîm y we'n cadw'r wybodaeth yn gyfoes. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â thîm y we i sicrhau bod y wefan yn dal yn berthnasol ac yn gyfoes. https://www.denbighshire.gov.uk/cy/hamdden-a-thwristiaeth/gwasanaeth-ceidwad-chwarae/gwasanaeth-ceidwad- | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chwarae.aspx<br><br>Mae gan y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae fewnflwch e-bost neilltuol ar gyfer yr holl ymholiadau ynglŷn â chwarae sy'n cael ei rannu'n helaeth ac yn hawdd ei gofio – chwarae@sirddinbych.gov.uk, neu play@denbighshire.gov.uk yn Saesneg. Cyhoeddir y cyfeiriad ar bob amserlen, poster a darn o ohebiaeth at rieni, ysgolion a sefydliadau eraill.<br><br>Mae tudalennau'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae ar gyfryngau cymdeithasol yn cynnig amryw ddulliau o gysylltu, ac mae'n well gan lawer o gysylltu yn y dull llai ffurfiol hwnnw. Mae staff yn cadw golwg gyson ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac yn ymateb yn brydlon i unrhyw ymholiadau.<br><br>Mae gan y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae ddigonedd o adnoddau ar gael i hybu chwarae mewn amrywiaeth helaeth o leoedd ac fe rennir y rheiny'n aml mewn sesiynau Chwarae yn y gymuned a gyda'r holl ysgolion. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn rhannu swyddfa â'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae yn y Ganolfan Plant Integredig ac felly'n gallu cyfeirio plant a phobl ifanc at wasanaethau a rhannu gwybodaeth ynglŷn â chael mynediad at gyfleoedd chwarae. | | |
| **80** | Rhoddir cyhoeddusrwydd a chefnogaeth i ddigwyddiadau sy'n hybu cyfleoedd i chwarae a digwyddiadau ar gyfer plant a theuluoedd | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae tîm Chwaraeon Cymunedol Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn cynnal sesiynau Hwyl i'r Teulu yn rheolaidd ledled y sir yn ystod gwyliau ysgol. Mae'r sesiynau hynny'n rhad ac am ddim ac mae'r tîm yn gweithio ag amryw bartneriaid i'w darparu. Fe'u hysbysebir ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Hamdden Sir Ddinbych a hefyd drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n darparu cyfleoedd chwarae agored gydol y flwyddyn ledled Sir Ddinbych. Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r rhain gydag amserlenni a phosteri. Mae archfarchnadoedd lleol yn cefnogi digwyddiadau drwy roi eitemau fel bwyd, diod ac offer chwarae. Maent hefyd yn hysbysebu digwyddiadau a sesiynau ar eu | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | byrddau gwybodaeth.<br><br>Mae Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae Sir Ddinbych yn rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau ar ei dudalennau cyfryngau cymdeithasol ac mae'r holl wybodaeth yn ymddangos hefyd ar dudalen y Ceidwaid Chwarae ar wefan Sir Ddinbych, a gaiff ei diweddaru'n gyson. Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae hefyd yn hyrwyddo digwyddiadau i blant theuluoedd a gynhelir gan wasanaethau neu sefydliadau eraill.<br><br>Bu'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n gweithio ar brosiect ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Fframwaith Iechyd, Lles a Gwytnwch Emosiynol i greu adran 'Mentro Allan' benodol ar wefan y Fframwaith. Bydd hynny'n hyrwyddo'r holl fannau addas i chwarae ynddynt sydd am ddim neu'n rhad. Bydd yn cynnwys llwyth o wybodaeth am bob lleoliad a lluniau er budd y darllenwyr. Darperir mynediad at y wybodaeth yn rhad ac am ddim a bydd pob Awdurdod Lleol yn ei chadw'n gyfoes. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae wedi cael hyfforddiant ar ddiweddaru'r wefan fel bod y wybodaeth a gyflwynir bob amser yn gywir ac yn gyfoes. Yn ogystal â darparu gwybodaeth am leoedd fel traethau, llwybrau coedwig, mannau agored a mannau chwarae ag offer sefydlog, gellir defnyddio'r wefan hefyd i hyrwyddo digwyddiadau neu sesiynau chwarae a gynhelir ledled gogledd Cymru. Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae felly'n gallu defnyddio'r wefan i hyrwyddo sesiynau chwarae agored Chwarae Allan yn ystod gwyliau ysgol a digwyddiadau eraill fel y Diwrnod Chwarae Cenedlaethol. Gellir hefyd hyrwyddo digwyddiadau y mae gwasanaethau eraill yr awdurdod yn eu cynnal i annog plant i chwarae.<br><br>Dathlir Diwrnod Chwarae Cenedlaethol yn Sir Ddinbych bob blwyddyn, ar y dydd Mercher cyntaf ym mis Awst. Daw amrywiaeth helaeth o bartneriaid a sefydliadau ynghyd i siarad o blaid hawl plant i chwarae ac mae'n dangos i deuluoedd a'r gymuned mor bwysig yw chwarae er mwyn i blant ffynnu. Mae'r digwyddiad wedi mynd o nerth i nerth ers | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cynnal yr un cyntaf yn y Rhyl yn 2015, a 2024 oedd y flwyddyn orau eto gyda mwy na 3,000 o bobl yno. Roedd y partneriaid yn cynnwys:<br>• Y Fyddin<br>• Teuluoedd yn Gyntaf<br>• Dechrau'n Deg<br>• Gwasanaethau Cefn Gwlad<br>• Hamdden Sir Ddinbych Cyf<br>• Y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae<br>• Y Tîm Datblygu Gofal Plant<br>• Addysg Gynnar<br>• Gwasanaethau Ieuenctid<br>• Barnardo's<br>• Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br>• Heddlu Gogledd Cymru<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>• Cynllun Ysgolion a Chyn-ysgol Iach<br>• Voel Coaches<br>• Cynllun Gwên<br>• Clwb Rygbi'r Rhyl<br>• Ysgol Christchurch<br>• Gwasanaeth Tân ac Achub | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gogledd Cymru<br>• Sefydliad y Badau Achub<br>• Gwylwyr y Glannau<br>• Offerynnau Taro o Sbwriel<br>• Morrisons<br>• RSPB<br>• Gwasanaeth Celfyddydau Sir Ddinbych<br>• Cyngor Tref y Rhyl. | | |
| **81** | Rhoddir cyhoeddusrwydd i wybodaeth sy'n cyfrannu at agweddau cadarnhaol yn y gymuned | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n cynnal sesiynau chwarae mewn mannau agored gwyrdd a pharciau cyhoeddus, sy'n amlygu'r gefnogaeth i hybu chwarae ac yn helpu i ddylanwadu'n gadarnhaol ar agweddau'r gymuned at blant yn chwarae.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n annog pobl yn y gymuned i gefnogi cyfleoedd i blant chwarae ac wedi gweithio â Chlwb Pêl-droed Gallt Melyd, a agorodd ddrysau'r clwb i ddarparu lluniaeth i rieni a theuluoedd sy'n dod i'r sesiynau a gynhelir wrth ymyl y cae pêl-droed.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n rhannu gwybodaeth gan Chwarae Cymru'n gyson drwy ei holl sianeli ar | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gyfryngau cymdeithasol er mwyn cyfrannu at agweddau cadarnhaol yn y gymuned at chwarae. Rhennir hyn hefyd ag ysgolion a'r holl ddarparwyr gofal plant a chwarae.<br><br>Mae gan y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae amryw adnoddau wedi'u hargraffu y gellir eu rhannu â phobl yn y gymuned, rhieni ac ysgolion i hyrwyddo chwarae.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae wedi meithrin perthynas dda â hyrwyddwyr cymunedol Tesco, y Co-op a Morrisons ac yn 2024 buont yn cymryd rhan yng Nghynllun Grantiau Cymunedol Tesco yn y siop ym Mhrestatyn, gan gasglu'r cyfanswm mwyaf ond un o docynnau glas a chael rhodd o £1,000 i'r gwasanaeth. | | |
| **82** | Rhoddir cyhoeddusrwydd i wybodaeth a chefnogaeth i rieni i'w helpu i annog eu plant i chwarae | **Oren** | **Gwyrdd** | Mae gan Wasanaeth Ceidwaid Chwarae Sir Ddinbych dudalen neilltuol ar wefan Cyngor Sir Ddinbych sy'n darparu gwybodaeth i rieni a'u cyfeirio at wefan Chwarae Cymru a'r rhaglen Plentyndod Chwareus i gael mwy o gymorth.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | rhannu gwybodaeth ar *Facebook*, *Instagram* ac *X*. Rhennir gwybodaeth gan Chwarae Cymru'n gyson ynghyd â'n syniadau a chynghorion ein hunain ynglŷn â chwarae.<br><br>Rhoddir cyhoeddusrwydd i wybodaeth am sesiynau chwarae agored ar wefan Cyngor Sir Ddinbych ac ar yr holl sianeli ar gyfryngau cymdeithasol.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n amlwg iawn mewn cymunedau lleol wrth iddynt hyrwyddo cyfleoedd i chwarae ac yn manteisio ar bob cyfle posib i siarad o blaid chwarae ar sail eu gwybodaeth o bolisïau chwarae a Hawliau Plant.<br><br>Cesglir cyfeiriadau e-bost yr holl rieni a'u cadw mewn ffeil er mwyn eu defnyddio i rannu gwybodaeth a chefnogaeth i hybu cyfleoedd i chwarae.<br><br>Mae Gwasanaeth Integredig Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn dosbarthu gwybodaeth ynglŷn â'r holl gyfleoedd i chwarae sydd ar gael yn Sir Ddinbych drwy newyddlen fewnol y tîm a gyda rhieni | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ar gyfryngau cymdeithasol. Rhennir syniadau a gweithgareddau chwarae yn ystod gwyliau hefyd, ar gyfryngau cymdeithasol a gyda holl dimau gwasanaeth integredig Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. | | |
| **83** | Mae'r awdurdod lleol yn meithrin cyswllt â'r cyfryngau er mwyn annog delwedd gadarnhaol o blant yn chwarae yn yr ardal | **Oren** | **Oren** | Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae newydd ddechrau meithrin cyswllt â *Sound Radio* (gorsaf radio leol) er mwyn cyfrannu at y rhan o'u sioe sy'n ymdrin â materion cymunedol.<br><br>Defnyddir cyfryngau cymdeithasol yn gyson i eirioli o blaid chwarae a chyflwynir delweddau cadarnhaol o blant yn chwarae gyda hynny.<br><br>Ceisir cydsyniad rhieni yn ystod digwyddiadau a sesiynau chwarae agored i dynnu lluniau/fideos o blant yn cymryd rhan, ac fe rennir y rheiny'n gyson ar gyfryngau cymdeithasol ac mewn datganiadau i'r wasg.<br><br>Mae Adran Gwasanaethau Cyhoeddus yr awdurdod lleol yn rhannu datganiadau i'r wasg â'r holl gyrff perthnasol yn y | Meithrin cyswllt yn fwy â'r cyfryngau i hyrwyddo cyfleoedd chwarae ymysg Cynghorau Tref a Chymuned | Cynnal trafodaethau â Chynghorau Tref a Chymuned lleol er mwyn dal i hyrwyddo cyfleoedd i chwarae ac annog y gymuned i gymryd rhan. |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cyfryngau i hyrwyddo gweithgareddau a digwyddiadau chwarae. | | |
| **84** | Gwnaed dadansoddiad trylwyr o anghenion hyfforddiant y gweithlu chwarae, fel y'i diffinir yn y Canllawiau Statudol | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae'r awdurdod lleol o hyd yn adolygu'r galw a'r anghenion o safbwynt gofynion hyfforddiant y gweithlu gofal plant a chwarae ac yn defnyddio gwybodaeth a ddarperir gan AGC wrth lunio'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth blynyddol, sy'n nodi maint y gweithlu gofal plant a chwarae a lefelau cymwysterau darparwyr, ac mae'r holl leoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig yn cyfrannu at hynny. Mae hynny'n ein helpu i adnabod pa hyfforddiant sydd ei hangen i alluogi'r gweithlu gofal plant a chwarae i gyflawni'r cymwysterau angenrheidiol.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu mynediad at amrywiaeth o hyfforddiant a chymwysterau yn unol â gofynion AGC, ac mae'r rhain oll wedi'u derbyn a'u cydnabod ar Restr Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru o'r cymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer gwaith chwarae a Rhestr Gofal Cymdeithasol Cymru o Gymwysterau Gofynnol. Mae'r hyfforddiant | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | yn cynnwys Lefel 2, Lefel 3, Lefel 4 a Lefel 5 mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygu Plant yn ogystal â Chymhwyster Pontio at Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi cofrestru â chronfa ddata genedlaethol Dewis ar gyfer hyfforddiant, a ddarperir yn benodol i Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru gofnodi a chadw gwybodaeth am hyfforddiant i ddarparwyr gofal plant a chwarae.<br><br>Rhennir gweminarau, gweithdai a sesiynau codi ymwybyddiaeth Chwarae Cymru â holl swyddogion perthnasol yr awdurdod lleol yn ogystal ag aelodau o'r gweithlu gofal plant a chwarae y mae eu gwaith yn effeithio ar gyfleoedd i blant chwarae.<br><br>Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cadw cofnod o'r holl staff yn y gweithlu gwaith chwarae ar y cyd ag Adnoddau Dynol.<br><br>Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos â Dysgu Oedolion Cymru, Coleg Llandrillo, | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Coleg Cambria, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chlybiau Plant Cymru er mwyn darparu cymwysterau gwaith chwarae.<br><br>Yn y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae, mae saith o aelodau o staff yn meddu ar gymwysterau Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae, tri o aelodau o staff yn gweithio at gyflawni cymwysterau Gwaith Chwarae Lefel 3 a dau o aelodau o staff yn meddu ar gymwysterau Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae a Rheoli Cynlluniau Chwarae Gwyliau.<br><br>Yn y Ganolfan Plant Integredig, mae dau o aelodau o staff wedi cael hyfforddiant Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae, chwech o aelodau o staff wedi cael hyfforddiant lefel 3 mewn Gwaith Chwarae a thri aelod arall o staff yn gweithio at gyflawni cymhwyster lefel 3. Mae dau o aelodau o staff wedi cael hyfforddiant Lefel 3 mewn Rheoli Cynlluniau Chwarae Gwyliau.<br><br>Mae'r Cydlynydd Chwarae Hygyrch wedi gwneud hyfforddiant â Chwarae Cymru i ennill Dyfarniad Agored Cymru Lefel 3 mewn Darparu Hyfforddiant Gwaith | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Chwarae Deinamig, a fydd yn helpu i osod sylfeini cadarn ar gyfer y cymwysterau lefel 2 a 3 mewn Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P3), Dyfarniad Lefel 2 Agored Cymru mewn Ymarfer Gwaith Chwarae a Dyfarniad Lefel 3 Agored Cymru mewn Rheoli Cynlluniau Chwarae Gwyliau, gan sicrhau darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer hyfforddi a datblygu'r gweithlu ym maes gwaith chwarae ledled Sir Ddinbych a thrwy Gymru. | | |
| **85** | Cynigir amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu i'r staff fel y gallant ystyried eu swyddogaeth o safbwynt cefnogi chwarae | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Fel 84<br><br>Rhoddir anogaeth a chefnogaeth gyson i staff y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae gymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddiant perthnasol er mwyn gwella eu gwybodaeth a rhoi cymaint â phosib o sgiliau iddynt gefnogi plant yn chwarae a medru eirioli o blaid chwarae, risg a her mewn amrywiaeth o leoliadau ac amgylcheddau. Telir staff am eu hamser wrth gymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'u gwaith a chefnogi chwarae.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu rhaglen | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hyfforddiant helaeth â chymhorthdal i Ddarparwyr Gofal Plant a Chwarae. Mae'r cyrsiau hyn hefyd yn helpu i sicrhau y cyflawnir y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn yr holl wasanaethau, gan gynnwys cymwysterau mewn diogelu a Chymorth Cyntaf.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Addysg Gynnar, Dechrau'n Deg a'r tîm Datblygu Gofal Plant a Chwarae'n gyson yn chwilio am gyfleoedd dysgu a datblygu i'w darparu yn y sector gofal plant a chwarae er mwyn hybu eu gallu i gefnogi chwarae. | | |
| **86** | Ceir amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus ar gyfer amrywiaeth o weithwyr proffesiynol | **Oren** | **Oren** | Fel yn 70 uchod<br><br>Mae'r awdurdod lleol yn darparu cyfleoedd i weithwyr proffesiynol ehangu eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus er mwyn gallu cefnogi plant yn chwarae. Tîm datblygu'r gweithlu sy'n darparu hynny drwy gomisiynu darparwyr allanol i fodloni'r anghenion ar gyfer darparu cyfleoedd ystyrlon i chwarae yn y gymuned. Rydym yn gwerthfawrogi ein staff a byddwn bob amser yn dod o hyd i | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | sy'n gweithio â phlant | | | ffyrdd o'u helpu i ddatblygu.<br><br>Mae'r Cydlynydd Chwarae Hygyrch wedi gwneud y cymhwyster Darparu Hyfforddiant Gwaith Chwarae Deinamig gyda Dysgu Oedolion Cymru ac Agored Cymru, er mwyn gallu datblygu cyfres o hyfforddiant i roi ychwaneg o gefnogaeth i'r gweithlu chwarae ledled Sir Ddinbych.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Addysg Gynnar, Dechrau'n Deg a'r tîm Datblygu Gofal Plant a Chwarae'n gyson yn chwilio am gyfleoedd dysgu a datblygu i'w darparu yn y sector gofal plant a chwarae er mwyn hybu eu gallu i gefnogi chwarae.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae, sefydliadau CWLWM a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn rhannu gwybodaeth yn gyson â gweithwyr proffesiynol a darparwyr gofal plant a chwarae ynglŷn â chyfleoedd hyfforddi a datblygu.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae hefyd wedi datblygu Gwasanaeth | Oherwydd cyfyngiadau ar gyllidebau ysgolion ac anawsterau ariannol, nid yw ysgolion wedi gallu | Cyllid i'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae eirioli o blaid chwarae mewn ysgolion ac |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ceidwaid Chwarae Bach y gall ysgolion ei gomisiynu i weithio â grwpiau o blant i ddatblygu eu timau Ceidwaid Chwarae eu hunain, a fyddai'n cael chwe mis o 'hyfforddiant' gan y Ceidwaid Chwarae i fedru dal i gynnal a hyrwyddo cyfleoedd chwarae amser egwyl a defnyddio'r storfeydd rhannau rhydd yn yr ysgolion a ariannwyd yn y gorffennol Grant Cyfleoedd Chwaraeon Cymru Gyfan, ond daeth hynny i ben ym mis Gorffennaf 2024 oherwydd gwasgfeydd ar gyllidebau ysgolion. | prynu gwasanaethau ychwanegol i gynnig gwell cyfleoedd allgyrsiol. | annog plant i fagu sgiliau chwarae, yn ogystal â sefydlu a chynnal trefn lle mae ysgolion yn cael eu harwain gan chwarae. |
| **87** | Darperir sesiynau i godi ymwybyddiaeth o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae a sesiynau hyfforddi eraill i weithwyr proffesiynol a phenderfynwyr y mae eu gwaith yn | **Gwyrdd** | **Oren** | Cyflwynodd Marianne Mannello o Chwarae Cymru weithdy ynghylch Cyfleoedd Chwarae Digonol ym mis Ionawr 2025. Estynnodd y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae wahoddiad i'r holl wasanaethau a gweithwyr proffesiynol y mae eu gwaith yn effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae. Gwnaed cofnod o bawb a fu'n bresennol a chafwyd ymateb cadarnhaol gan y cyfranogwyr, a soniodd eu bod bellach yn deall mor bwysig oedd digonolrwydd cyfleoedd chwarae a'r ffordd y mae eu gwaith yn cyfrannu at hynny. Roedd y gweithgareddau yn y gweithdy'n | Ni fedrodd yr holl wasanaethau a gweithwyr proffesiynol a wahoddwyd ddod i'r digwyddiad. | Dal i weithio mewn partneriaeth ag adrannau a gweithwyr proffesiynol eraill i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cyfleoedd chwarae digonol |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae | | | fuddiol i feithrin dealltwriaeth y cyfranogwyr o'r ffyrdd y gallant gyfrannu at gyfleoedd plant i chwarae yn Sir Ddinbych.<br><br>Mae'r Cydlynydd Chwarae Hygyrch wedi gwneud yr hyfforddiant Darparu Hyfforddiant Gwaith Chwarae Deinamig, sy'n golygu y gall Sir Ddinbych gynnig cyrsiau hyfforddiant Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae a chynnal gweithdai 'Dewch inni siarad am chwarae'. Ar hyn o bryd, mae'r gweithwyr proffesiynol wedi cwblhau hyfforddiant chwarae a ddarparwyd gan awdurdodau lleol eraill.<br><br>Cynigir gweithdai Hawl i Chwarae drwy Wasanaeth Ceidwaid Chwarae Sir Ddinbych.<br><br>Darperir y rhaglen Ceidwaid Chwarae Bach mewn ysgolion i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo mor bwysig yw chwarae wedi'i arwain gan blant.<br><br>Rhennir gweminarau, gweithdai a sesiynau codi ymwybyddiaeth Chwarae Cymru â holl swyddogion perthnasol yr awdurdod lleol yn ogystal ag aelodau o'r | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gweithlu gofal plant a chwarae y mae eu gwaith yn effeithio ar gyfleoedd i blant chwarae.<br><br>Mae'r Gynhadledd Gofal Plant flynyddol a gynhaliai'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'r tîm Datblygu Gofal Plant wedi newid ei henw i'r Gynhadledd Gofal Plant a Chwarae. Cynhaliwyd hon ym mis Hydref 2024 ac un o'r siaradwyr gwadd oedd Marianne Mannello o Chwarae Cymru, a fu'n sôn mor bwysig yw chwarae a swyddogaeth ymarferwyr wrth hwyluso mynediad at amgylchedd chwarae cyfoethog. | | |
| **88** | Hyrwyddir cynlluniau i feithrin cyswllt â grwpiau perthnasol wrth wella cyfleoedd i blant chwarae yn yr ardal | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n hyrwyddo ac amlygu cynlluniau i annog plant i fanteisio ar gyfleoedd i chwarae gyda'r bobl ifanc a theuluoedd y mae'n gweithio â hwy. Gwneir hynny drwy gyfryngau cymdeithasol, gwefannau a chysylltiadau ag ysgolion, partneriaid a theuluoedd.<br><br>Mae gwe-dudalen y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae ar wefan Cyngor Sir Ddinbych yn cyfeirio pobl at wefan | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Chwarae Cymru, lle gall rhieni a theuluoedd ddysgu am chwarae, dod o hyd i wybodaeth a defnyddio'r wefan Plentyndod Chwareus.<br><br>Mae'r Ceidwaid Chwarae'n cynnal sesiynau 'Chwarae Allan' ledled y sir a gaiff eu hysbysebu ar wefan Cyngor Sir Ddinbych, a rhennir dolenni i'r gwe-dudalennau perthnasol ar gyfryngau cymdeithasol, mewn ysgolion, newyddlenni, a llythyrau i bawb ar y rhestr bostio, a darperir codau QR i'w gwneud yn haws i bobl fynd iddynt.<br><br>Mae Codi a Mynd Allan yn gynllun i gefnogi plant ym mlwyddyn 6 wrth bontio i flwyddyn 7.<br><br>Gweithio â gofalwyr ifanc i sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd i chwarae. | | |
| **89** | Mae unigolyn penodedig ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol a | **Coch** | **Gwyrdd** | Nathania Minard – Swyddog Datblygu Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r Swyddog Chwarae Arweiniol penodedig ar gyfer gogledd Cymru ac mae'n aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer Plant, gyda | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhanbarthol sy'n hyrwyddo chwarae plant. Mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynllun Gweithredu'n cyfrannu at y Cynllun Lles ac wedi'u cynnwys ynddo | | | chyfrifoldeb am hyrwyddo hawl plant i chwarae.<br><br>Cesglir ynghyd yr holl Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a gynhelir yn y rhanbarth ac maent yn sail ar gyfer yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r Cynllun Lles, ond mae'r Asesiad o Les yn ymdrin ag amrywiaeth helaeth o anghenion lles, ond dim ond ychydig o sôn am Chwarae sydd ynddo yng nghyd-destun hawliau plant.<br><br>Mae'r Cydlynydd Chwarae Hygyrch yn gweithio'n agos â Nathania ac yn darparu prosiectau ar y cyd yng Nghonwy a Sir Ddinbych.<br><br>Cynhaliodd y Tîm Ceidwaid Chwarae archwiliad tua dechrau 2025 o'r holl fannau chwarae ledled Sir Ddinbych, gan gynnwys bwrw golwg ar hygyrchedd ac offer addas i blant a phobl ifanc anabl. Bydd y wybodaeth honno'n creu darlun ehangach ar y wefan newydd Mentro Allan y mae Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru ar fin ei lansio tua diwedd 2025. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **90** | Mae'r Tîm Iechyd Cyhoeddus lleol yn cefnogi chwarae a digonolrwydd cyfleoedd chwarae | **Newydd ar gyfer 2025** | **Gwyrdd** | Mae Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol y Bwrdd Iechyd yn gwneud ymdrech i ymateb i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl o hanner cant o dai a mwy, er mwyn eirioli o blaid cynnwys isadeiledd gwyrdd ac ardaloedd chwarae hygyrch ac addas i blant.<br>• Cyfrannu at ymgyngoriadau ynghylch cynllunio a dylunio gwaith i adeiladu neu adnewyddu ysgolion, meithrinfeydd a lleoliadau gofal er mwyn hyrwyddo mynediad i'r awyr agored, gan gynnwys nodweddion sy'n gwarchod rhag y tywydd fel canopïau a thoeau dros lwybrau cerdded.<br>• Mae'r eiriolaeth yn gyson â Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored, sy'n pwysleisio mor bwysig yw cyfleoedd chwarae hygyrch a mannau i hamddena fel rhan o ddatblygiad cynaliadwy.<br>• Cydweithio â'r adrannau cynllunio, addysg a thai er mwyn ymwreiddio materion iechyd a | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | lles mewn cynlluniau datblygu lleol a chanllawiau cynllunio atodol.<br>• Mae cyfraniad Tîm Iechyd Cyhoeddus y Bwrdd Iechyd wedi dylanwadu ar amryw ddatblygiadau diweddar i gynnwys nodweddion chwarae naturiol mewn datblygiadau, dylunio cynhwysol a rhwydd hynt at fannau gwyrdd.<br><br>Mae Swyddogion y Tîm Iechyd Cyhoeddus lleol yn mynd i gyfarfodydd Fforwm Gofal Plant a Chwarae'r awdurdod lleol ac yn cyfrannu'n weithredol at y drafodaeth ynghylch gofal plant a chwarae yn Sir Ddinbych. | | |
| **91** | Mae cynlluniau i leihau effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn cydnabod mor bwysig yw chwarae, ac yn | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod yr effaith arwyddocaol y gall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ei chael ar ddatblygiad plant a'u lles. Felly, rhoddwyd cynlluniau ar waith mewn amryw adrannau i ddarparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. | | |

| Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol | Meini prawf | Statws COG Blaenorol * | Statws COG Cyfredol * | Tystiolaeth o gryfderau | Diffygion | Beth fyddai'n datrys y diffygion? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | cyfrannu at ddarparu cyfleoedd chwarae cyfoethog | | | Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod chwarae'n cynnig buddion therapiwtig i fabanod, plant a phobl ifanc sydd wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae'r Tîm Arwain Strategol yn hyrwyddo'r ddarpariaeth Ceidwaid Chwarae yn yr holl adrannau ym meysydd Gofal Cymdeithasol i Blant, Addysg, Tai a Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae'n cydweithio â gwasanaethau eraill i ddarparu ymyriadau sy'n seiliedig ar chwarae sydd â'r nod o liniaru ar effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. | | |

**Synergedd polisi, ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth: Sylwadau ychwanegol – Dd, E, F ac Ff**

| |
|---|
| Mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth drylwyr o bolisïau chwarae a'u pwysigrwydd, ac yn eirioli'n bendant o blaid chwarae ar sail ei weledigaeth ar gyfer 'Gwneud Sir Ddinbych yn Gymuned sy'n Croesawu Chwarae'. Mae datblygu'r gwasanaeth chwarae yn Sir Ddinbych yn y pedair blynedd diwethaf yn golygu fod pobl ledled y sir yn gwybod mor bwysig yw chwarae ac yn cydnabod fod gan blant hawl i chwarae. Rhoddir sylw cyson i rinweddau chwarae yng nghyd-destun popeth arall a cheir enghreifftiau ardderchog o hyn fel y Diwrnod Chwarae Cenedlaethol sydd wedi'i gynnal yn Sir Ddinbych ym mis Awst bob blwyddyn ers 2015, a daeth mwy na 3,000 o bob cwr o'r sir a gogledd Cymru i'r digwyddiad yn 2024 i fwynhau tridiau hwyliog o chwarae a ddarparwyd gan amryw o bartneriaid a sefydliadau sy'n gwerthfawrogi a chlodfori hawliau plant i chwarae. |

Cyflwynodd yr awdurdod lleol y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae yn haf 2022, er mwyn cynnal y rhaglen Haf o Hwyl i ddechrau, ac ers hynny mae'r gwasanaeth wedi mynd o nerth i nerth. Denodd darpariaeth agored Chwarae Allan y Ceidwaid Chwarae fwy na 20,000 o gyfranogwyr yn 2024 a cyn i'r gwasanaeth lansio'r Gwasanaeth Chwarae teithiol yn 2022, nid oedd unrhyw wasanaethau eraill yn Sir Ddinbych yn cynnig cyfleoedd tebyg i blant a phobl ifanc chwarae yn eu cymunedau lleol yn Sir Ddinbych. Mae'r twf i gyrraedd 20,000 o gyfranogwyr mewn dwy flynedd yn dystiolaeth o'r rhagoriaeth a brwdfrydedd wrth eirioli o blaid chwarae a bod sail gadarn i bolisïau a chynlluniau chwarae yn Sir Ddinbych.

Cafwyd yr heriau mwyaf oherwydd cyfyngiadau ariannol, yn enwedig wedi i'r cyllid ar gyfer Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles ddod i ben heb fod unrhyw ffrwd ariannu arall ar gael i gynnal y gwasanaeth poblogaidd hwn. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi'r Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae ac yn arfer cysylltiadau da ag ef, ond maw cwtogi ar gyllidebau ysgolion a Grantiau Amddifadedd Disgyblion yn golygu na fedrant gomisiynu'r gwasanaeth i'w disgyblion mwyach. Mae rhai o'r ysgolion hynny'n sôn eu bod wedi gweld cynnydd mewn ymddygiad annymunol yn ystod amser chwarae, sy'n debyg i'r ymddygiad a welir yn y sesiynau chwarae agored ac mewn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr un ardaloedd.

Er mwyn ateb yr her i ymdopi ag effaith cwtogi ar ffrydiau ariannol ar ddatblygu polisïau ymhellach, annog mwy o gyfranogwyr ac eirioli o blaid chwarae yn Sir Ddinbych, gallai nifer o strategaethau helpu i liniaru ar bethau:

- Canfod ffrydiau ariannu eraill drwy ymgeisio am grantiau gan sefydliadau allanol neu'r Bwrdd Iechyd
- Eirioli o blaid cynnwys y Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae yng nghyllidebau'r awdurdod lleol fel gwasanaeth atal ac ymyrryd yn gynnar, gan amlygu'r effaith y mae'n ei chael ar ymddygiad a lles
- Codi proffil chwarae'n gorfforaethol ac ymysg aelodau etholedig.

- Camau gweithredu a ystyriwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu Chwarae – 83, 86, 87
- Camau gweithredu a gytunwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu Chwarae – 87
- Sail resymegol ar gyfer blaenoriaethu'r camau gweithredu – y sail ar gyfer blaenoriaethu cam gweithredu 87 yw bod camau gweithredu 83 ac 86 eisoes wedi'u blaenoriaethu ar ffurf camau gweithredu yn yr adrannau blaenorol. Bydd cam gweithredu 87 yn codi ymwybyddiaeth o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn yr holl ardaloedd a bydd hynny yn ei dro'n gwella'r sefyllfa chwarae yn Sir Ddinbych ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd chwarae yng nghyd-destun popeth arall.